Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Sicrhau chwarae teg

## Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig

Awst 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,**
**a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Sicrhau chwarae teg

## Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig

Awst 2022

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

---

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd .......... 5**

**Argymhellion .......... 8**

**1. Cefndir .......... 11**

**2. Gwerthuso'r dull polisi cyfredol .......... 15**

Ymrwymiadau a gofynion polisi cyfredol .......... 15

Datganiadau polisi diweddar .......... 17

Tystiolaeth a ystyriwyd .......... 17

Ein barn ni .......... 20

**3. Rhwystrau rhag cymryd rhan .......... 25**

Tystiolaeth a ystyriwyd .......... 25

Ein barn ni .......... 36

**4. Cyllid .......... 41**

Cyllid Llywodraeth Cymru .......... 41

Tystiolaeth a ystyriwyd .......... 44

Safbwyntiau'r rhai sydd â phrofiadau byw .......... 46

Enghreifftiau rhyngwladol .......... 47

Ein barn ni .......... 48

**5. Data .......... 52**

Data ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig .......... 52

Tystiolaeth a ystyriwyd .......... 57

Ein barn ni .......... 61

**Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar .......... 64**

**Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .......... 66**

Gwybodaeth ychwanegol .......... 66

# Rhagair y Cadeirydd

*"Gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad"*

– Llywodraeth Cymru, Ionawr 2022

Wrth i ni barhau i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig Covid-19, ni fu erioed gyfnod pwysicach i roi chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar flaen y gad o ran llesiant corfforol a meddyliol ein cenedl, ac nid yw'r cyfle wedi bod mor amlwg ychwaith. Yn ystod y pandemig Covid-19, rydyn ni wedi cael cyfle i edrych yn wahanol ar sut rydyn ni'n byw ein bywydau, ac yn wir yr hyn sydd bwysicaf i ni, fel cenedl ac fel unigolion. Ni allem gytuno mwy â geiriau Llywodraeth Cymru wrthym yn ystod ein sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft ym mis Ionawr 2022, y gallai (ac y gall) chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad: yn wir, gellir gwireddu'r uchelgais hwn, er bod llu o heriau ar ein llwybr y mae'n rhaid eu goresgyn cyn y gellir gwireddu'r uchelgais hwn yn llawn. Mae'r pandemig wedi cynnig cyfle i ni newid: rhaid i ni beidio â chymryd yn ganiataol y bydd y newidiadau cadarnhaol hynny'n digwydd heb weithredu ar y cyd.

Mae ein hymchwiliad wedi ystyried y llu o rwystrau cydgysylltiedig, cynnil a chymhleth i gael mynediad at chwaraeon sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Ac, er bod y pandemig wedi cael effaith na welwyd ei thebyg ar ein bywydau ni i gyd, roedd llawer o'r materion ystyfnig a amlygwyd gan ein hymchwiliad yn ymwneud â mynediad anghyfartal at chwaraeon yn bodoli cyn Chwefror 2020. Dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd yn 2020 nad oedd 1 o bob 4 oedolyn, yn fyd-eang, yn bodloni'r lefelau gweithgarwch corfforol a argymhellir yn fyd-eang. Cyn y pandemig, dim ond **32 y cant o oedolion (16+) oedd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon deirgwaith yr wythnos – tra nad oedd dros 40 y cant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd o gwbl**. Er bod lefelau gweithgarwch cyffredinol wedi cynyddu ers mis Mawrth 2021, mae aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas wedi dweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch nag oeddent cyn y pandemig. Mae hon yn duedd sy'n peri pryder mawr.

Mae'n wybodaeth gyffredin y gall byw bywydau iachach a mwy egnïol yn gorfforol gael effaith hynod fuddiol ar fesurau eraill fel disgwyliad oes, cyfleoedd economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol. Cydnabyddir hefyd bod arferion ffordd o fyw a ddatblygir o oedran ifanc hefyd yn fwy tebygol o barhau ar ôl dod yn oedolyn. Am y rhesymau hyn yn unig, gallai

sicrhau chwarae teg o ran cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru gael effaith ddramatig ar fywydau pobl o gefndiroedd difreintiedig.

Clywsom dystiolaeth argyhoeddiadol gan randdeiliaid bod nifer o rwystrau'n wynebu'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd y rhwystrau hyn yn amrywio o addasrwydd y cyfleusterau sydd ar gael, diffyg mannau diogel ar gyfer gwneud ymarfer corff, gostyngiad yn yr amseroedd a neilltuwyd ar gyfer chwaraeon, a stereoteipiau sy'n perthyn i'r gorffennol. Yn aml, gall rhwystrau corfforol gael eu gwaethygu gan rwystrau llai diriaethol, sy'n ymwneud â'n hymddygiad a'n rhagfarnau, gan gynnwys y ffyrdd mae cymdeithas yn ein dysgu i gael syniadau sefydlog ynghylch sut dylai pobl edrych neu ymddwyn. Bydd llawer o'r anfanteision sy'n wynebu aelodau o'n cymdeithas wrth gymryd rhan mewn chwaraeon yn groestoriadol eu natur, yn ymwneud â rhyw, rhywioldeb, hil, crefydd ac anabledd. At hynny, ni ddylid ystyried y problemau rydym yn eu hamlygu yn yr adroddiad hwn fel rhai statig: mae'r sefyllfa wedi gwaethygu'n sylweddol yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, a bydd mwy a mwy o deuluoedd yn y misoedd nesaf yn wynebu'r dewis o fwyta neu gyllido gweithgareddau chwaraeon eu plant.

Er bod ymyriadau unigol y gellir eu cynnal i fynd i'r afael â rhwystrau unigol, credwn yn gryf bod cyfrifoldeb am hyn yn dechrau ar y brig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad cryfach a chliriach ar fater mynediad cyfartal at chwaraeon. Er bod yr ymrwymiadau a wnaed hyd yma yn ganmoladwy ynddynt eu hunain, nid ydynt yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â chymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae'n amlwg i ni fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos mwy o arweiniad ar y mater hwn, ac rydym yn galw am gyflwyno dull newydd, cenedlaethol ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r dull hwn yn amlinellu uchelgais polisi sy'n benodol, gyda thargedau mesuradwy i'w gosod yn erbyn cyfnod penodol o amser. Credwn y bydd uchelgais o'r fath yn arwain at gydweithio gwell a chanlyniadau gwell i'r rhai sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

Bydd y dull hwn yn gofyn am feddwl ystwyth, a manteisio ar brosesau cyllidebu newydd a fydd yn rhoi cyllid ar gyfer chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig ar sylfaen fwy cynaliadwy, tymor hwy (yn lle'r dull mwy tameidiog sydd wedi digwydd hyd yma). Bydd hefyd angen cyllid ychwanegol sylweddol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf a amlygwyd yn ein hadroddiad.

Credwn yn gryf, os gwireddir yr argymhellion yn ein hadroddiad, y bydd hyn yn arwain at arferion trawsnewidiol, ac yn golygu y bydd uchelgais canmoladwy'r Llywodraeth Cymru o

chwaraeon yn cael eu gweld fel arf ataliol (o ran iechyd, addysg a nifer o anghydraddoldebau eraill) yn cael ei wireddu'n llawn o'r diwedd.

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cenedlaethol newydd o ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai'r dull hwn ddwyn ynghyd y gwaith presennol ac arfer da sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â chyflwyno syniadau newydd i gyfrannu at y dull hwn. Dylai hyn gynnwys targedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod penodol o bum mlynedd, i sicrhau bod cydraddoldeb o ran mynediad at gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. ........................................................ Tudalen 23

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid prosiect ychwanegol ar fyrder i Chwaraeon Cymru i'w alluogi i wneud gwaith i nodi a darparu cyfleoedd sy'n galluogi pobl o grwpiau difreintiedig i elwa ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
........................................................................................................................ Tudalen 37

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

i. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canfyddiadau'r rhaglenni peilot gwahanol sy'n cael eu cynnal ynghylch agor ysgolion i'r gymuned ehangach eu defnyddio, ac adrodd ar ei chanfyddiadau mewn dogfen a fydd yn cael ei chyhoeddi ddim hwyrach na mis Gorffennaf 2023.

ii. Gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal archwiliad Cymru gyfan o gyfleusterau chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio, gan gynnwys sylw arbennig i leoliad ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

iii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd. .................................................................................................. Tudalen 40

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

i. Gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr cyfleusterau hamdden a chlybiau chwaraeon i gynnal archwiliad Cymru gyfan o'r cyfleusterau hyn i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio.

ii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd. ........ Tudalen 40

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cyllido chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yn cael eu rhoi ar gylchoedd cyllido tymor hwy. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â chyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o effaith y dull buddsoddi newydd ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig ymhen tair blynedd. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynllun peilot ar gyfer Grant Datblygu Gweithgarwch Corfforol, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot "Active Me – Kia Tū" yn Seland Newydd, er mwyn gwella mynediad i'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol. ......Tudalen 51

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod data'r Arolwg Cenedlaethol ar Chwaraeon Ysgol yn y dyfodol ar gael mewn fformat ffynhonnell agored i ddarparu mwy o fewnwelediad er mwyn sicrhau gwell tegwch o ran mynediad at chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. ........ Tudalen 61

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn ystyried sut gall gasglu data ansoddol er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu cyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. ........................ Tudalen 62

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido arolwg llawn a rheolaidd o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru, a Chwaraeon Cymru wedyn yn ei dreialu a'i gyflwyno. ........................ Tudalen 63

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddod â gwahanol ffynonellau data sy'n ymwneud â chyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig ynghyd, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd mewn un lle. .................... Tudalen 63

# 1. Cefndir

**1.** Yn ystod y Pumed Senedd, roedd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn gyfrifol am graffu ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chwaraeon, gan gynnwys ei phrif gorff a noddir ganddi, Chwaraeon Cymru. Ers ffurfio ein pwyllgor ym mis Mehefin 2021, mae pob mater sy'n ymwneud â chwaraeon yn dod o fewn ein cylch gwaith.

**2.** Mae Chwaraeon Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad[1] o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau yn y 12 mis yn union cyn y cyfyngiadau symud cyntaf oherwydd Covid-19. Dangosodd hyn fod 32 y cant o oedolion (16+) yn 2019/20 (ychydig cyn y pandemig) yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon deirgwaith yr wythnos neu'n amlach na hynny (808,000 o bobl). Roedd bron i hanner yr holl bobl (49 y cant) yn cymryd rhan mewn gweithgaredd o'r fath lai nag unwaith yr wythnos (1,246,000). At hynny, nid oedd 41 y cant o oedolion wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon (1,040,000 o bobl) yn ystod y pedair wythnos flaenorol.

**3.** Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon deirgwaith yr wythnos neu fwy yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*.[2] Roedd hyn wedi cynyddu o 29 y cant yn 2016-17 i 32 y cant yn 2017-18, ac yna arhosodd ar 32 y cant yn 2018-19 a 2019-20.

**4.** Yn y cyfamser mae 42 y cant o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion sydd â'r nifer uchaf o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos (yn ogystal â gwersi addysg gorfforol wedi eu hamserlennu). Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 55 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion â'r nifer lleiaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim[3].

**5.** Gweithiodd Chwaraeon Cymru gyda Savanta ComRes i gael cipolwg ar arferion ac ymddygiadau gweithgarwch y genedl yn ystod pandemig Covid-19, gan gynnal pedwar arolwg. Mae lefelau gweithgarwch cyffredinol wedi cynyddu ers mis Mawrth 2021 ac mae mwyafrif yr oedolion bellach yn dweud eu bod yn gwneud mwy o weithgarwch nag y buont yn ei wneud cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae oedolion hŷn, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai â chyflwr neu salwch hirsefydlog yn dal i fod yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn gwneud llai o weithgarwch nag yr oeddent cyn y pandemig.

[1] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20
[2] https://llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol
[3] Arolwg Cenedlaethol Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru 2018

**6.** Roedd yr Athro Melitta McNarry, Athro chwaraeon a gwyddorau ymarfer corff o Brifysgol Abertawe, wedi dweud wrthym yn 2021:

> *"there are major issues in terms of participation and the inequalities that have been exacerbated through the pandemic. We know that older adults, women, girls and those from a lower socioeconomic status are less likely to now be participating in activity than those in other groups."*[4]

## Cylch gorchwyl

**7.** Yn y cyd-destun hwn y gwnaethom gytuno ym mis Ionawr 2022 i gynnal ymchwiliad i gyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r term "chwaraeon" yn adlewyrchu pob math o chwaraeon a gweithgarwch corfforol[5]. Cytunwyd y dylai ffocws penodol yr ymchwiliad ystyried y canlynol:

- Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig? Sut mae'r rhain yn croestorri â ffactorau eraill, gan gynnwys:
  - Oedran,
  - Rhyw a rhywedd,
  - Statws economaidd-gymdeithasol,
  - Daearyddiaeth,
  - Anabledd,
  - Ethnigrwydd.
- Pa mor glir yw'r darlun sydd gennym o'r lefelau cyfranogiad presennol mewn ardaloedd difreintiedig? A yw'r data presennol yn galluogi ymyriadau polisi i fod yn effeithiol?
- Sut y dylid defnyddio arian cyhoeddus i gynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?

---

[4] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 20 Hydref 2021 paragraff 168
[5] Mae'r Pwyllgor wedi mewnosod y term "gweithgarwch corfforol" yn nheitl yr adroddiad hwn er eglurder.

- Pa mor effeithiol yw'r ymyriadau presennol o ran cynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?
- A yw'r pandemig wedi achosi unrhyw newidiadau parhaus i lefelau cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?
- Pa mor effeithiol y mae gwahanol sectorau (er enghraifft, addysg ac iechyd) yn cydweithio i wella cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?
- A oes enghreifftiau o arfer gorau, o fewn Cymru ac yn rhyngwladol, y dylid dysgu oddi wrthynt i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?

## Diffiniad o ardaloedd difreintiedig

**8.** Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[6] (MALlC) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Rydym wedi defnyddio'r term "difreintiedig" yn nheitl yr ymchwiliad hwn mewn ymgais i leihau stigmateiddio o ran y termau "dan anfantais" neu "amddifadedd".

**9.** Amddifadedd yw'r diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Gall hyn fod o ran nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

**10.** Ar hyn o bryd mae MALlC yn cynnwys wyth maes (neu fath) o amddifadedd gwahanol, sef incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol a thai.

**11.** Nid yw MALlC yn darparu mesur o lefel yr amddifadedd mewn ardal, ond yn hytrach a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu â holl ardaloedd eraill Cymru. Gall pobl a allai gael eu hystyried yn ddifreintiedig fyw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, ac fel arall.

## Casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad

**12.** Rhwng 7 Chwefror 2022 a 18 Mawrth 2022 cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus. Cawsom 15 o ymatebion ysgrifenedig, yn cynrychioli safbwyntiau sefydliadau yn amrywio o sefydliadau eiriolaeth i gyrff llywodraethu gwahanol chwaraeon. Yn ogystal â'r dystiolaeth ysgrifenedig, cawsom dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o wahanol dystion. Ceir amlinelliad o'r dystiolaeth

[6] https://wimd.gov.wales/?lang=cy

ysgrifenedig a llafar a ystyriwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn atodiadau A a B yr adroddiad hwn.

**13.** Fe wnaethom hefyd ymweld â gogledd Cymru lle gwnaethom gyfarfod â gwahanol sefydliadau chwaraeon i ddeall y materion maent yn eu hwynebu o ran cael pobl i gymryd rhan yn eu chwaraeon. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o **gyfweliadau** un i un hefyd gyda 14 o fewn y sector chwaraeon er mwyn nodi'r materion maent yn dod ar eu traws wrth gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

**14.** Yn olaf, fe wnaethom ystyried sut mae gwledydd eraill yn mynd i'r afael â'r mater o gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

**15.** Hoffem ddiolch i bob unigolyn a sefydliad a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

# 2. Gwerthuso'r dull polisi cyfredol

**16.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei blaenoriaethau chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, gwneir hyn yn bennaf drwy'r corff a noddir ganddi, Chwaraeon Cymru. Mae mentrau polisi eraill hefyd o fewn adrannau penodol y llywodraeth, fel Pwysau Iach: Cymru Iach sy'n cael ei redeg drwy Chwaraeon Cymru ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Ymrwymiadau a gofynion polisi cyfredol

### Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

**17.** Yn dilyn ffurfio Llywodraeth bresennol Cymru ym mis Mai 2021, cyhoeddodd ei **Rhaglen Lywodraethu** a ddywedodd y bydd yn:

- Hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau llawr gwlad.
- Buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf.
- Buddsoddi mewn cyfleusterau newydd fel caeau 4G.

### Llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru

**18.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yn ei llythyr cylch gwaith i Chwaraeon Cymru. Mae hwn yn amlinellu'r hyn y dylai Chwaraeon Cymru ei wneud â'r cyllid a ddarperir iddo gan y llywodraeth. Cyhoeddwyd y llythyr cylch gwaith diweddaraf ar gyfer Chwaraeon Cymru ar 22 Rhagfyr 2021. Am y tro cyntaf, mae hwn yn llythyr cylch gwaith "tymor y llywodraeth", sy'n golygu ei fod yn para ar hyd tymor y llywodraeth rhwng 2021 a 2026. Yn flaenorol, mae llythyrau cylch gwaith wedi eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae'r llythyr yn cynnwys y gofyniad i:

> *"Sicrhau y gall yr ystod ehangaf o grwpiau agored i niwed ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys nodi a darparu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig a'r rhai mewn cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol."*[7]

[7] https://llyw.cymru/llythyr-cylch-gwaith-chwaraeon-cymru-2021-2026

**19.** Mae llythyr cylch gwaith 2021-2026 Chwaraeon Cymru hefyd yn cynnwys nifer o ddisgwyliadau a allai ymwneud â chynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig. Y rhain yw:

- Blaenoriaethu amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb ledled y sector er mwyn sicrhau ein bod yn deall ac yn goresgyn rhwystrau i gyfranogiad;
- Datblygu eich rhwydwaith o Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol ymhellach i ymateb yn gadarnhaol i anghydraddoldebau lleol a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch i bawb;
- Parhau i gefnogi, ariannu a gweithio gyda sefydliadau sy'n darparu barn a phrofiadau bywyd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae eich gwaith yn effeithio arnynt wrth ichi wneud penderfyniadau;
- Gwella ymgysylltiad Chwaraeon Cymru â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**20.** Mae'r llythyr cylch gwaith hefyd yn cynnwys targedau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal; cymunedau B/byddar; ac i'r rhai sy'n byw ag anableddau.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**21.** Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

**22.** Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant[8]. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau. Ystyriwn fod nifer o'r nodau hyn – yn fwyaf nodedig "Cymru sy'n fwy cyfartal", "Cymru iachach" a "Chymru o gymunedau cydlynus" – yn ymddangos yn berthnasol i gylch gorchwyl ein hymchwiliad.

### Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

**23.** Ym mis Mawrth 2021, cychwynnodd y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol,[9] gan osod ymrwymiad statudol ar Weinidogion Cymru, a rhai cyrff cyhoeddus, i sicrhau bod eu penderfyniadau strategol yn ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol.

[8] https://llyw.cymru/llesiant-cymru-2021
[9] https://llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg

## Datganiadau polisi diweddar

**24.** Fel rhan o'n hymchwiliad i flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym y byddai'n hoffi cyfrannu mwy ar draws portffolios i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella iechyd y cyhoedd a chynyddu cydlyniant cymunedol.[10]

**25.** Dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, Dawn Bowden AS (y Dirprwy Weinidog) wrthym hefyd ar 13 Hydref 2021:

> *"And I want to see far more people involved in sport and activity at a community level, because that is very much part of our health and well-being agenda. So, those would be the two key things, I think, in terms of the elite performance and involvement and activity in sport at more of a community level."* [11]

**26.** Yn yr un cyfarfod, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> *"I want to see more young people from black, Asian and minority ethnic backgrounds, or from deprived communities, being involved in our arts, in our sports, in our cultural sector. That will be measurable in terms of has that been achieved."* [12]

**27.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad"*[13]

## Tystiolaeth a ystyriwyd

**28.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym pa mor bwysig yw chwaraeon i fywyd cenedlaethol Cymru. Ochr yn ochr â'r dylanwad y gall chwaraeon ei gael ar hunaniaeth, dywedodd wrthym fod "chwaraeon hefyd yn allweddol i'n

---

[10] Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol i flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd
[11] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 13 Hydref 2021, paragraff 184
[12] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 13 Hydref 2021, paragraff 101
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft 2022-23

hiechyd a'n llesiant fel cenedl, gyda'n gweledigaeth ar gyfer cenedl egnïol lle y gall pawb fwynhau chwaraeon drwy gydol oes."[14]

**29.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod pawb yn teimlo effeithiau andwyol pandemig Covid-19, ond y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a gafodd eu taro waethaf.[15] Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau, fel yr Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles, i geisio mynd i'r afael â'r bylchau hynny mewn cyfranogiad. Mae hyn yn cynnwys dyraniad o £7 miliwn ar gyfer gweithgareddau Haf o Hwyl drwy gydol gwyliau'r haf eleni (2022).

**30.** O ran cyfranogiad, soniodd y Dirprwy Weinidog am bwysigrwydd cael plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent o bosibl yn cymryd rhan ynddynt fel arall, gan na fyddent o reidrwydd eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon tîm. Ychwanegodd mai amcan cyfranogi yw ymwneud â gweithgareddau corfforol a llesiant meddyliol, ac nid yw hynny o reidrwydd yn cael ei ddarparu bob amser gan chwaraeon tîm wedi eu trefnu.[16]

**31.** Yn ystod trafodaeth ar gydweithio, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai un thema bwysig yw sut rydym yn gweithio ar draws adrannau, ar y cyd, i gyflawni'r holl amcanion hyn, oherwydd nid oes yr un ohonynt yn cael eu gwneud ar wahân ym mhob adran benodol. Nododd fod gwaith yn mynd rhagddo ar draws portffolios gweinidogol, a'r her yw sut rydym yn gwneud y gorau o'r cyfleusterau sydd gennym yn barod ar gyfer y gymuned ehangach.[17]

**32.** Yn ystod ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, amlygodd Chwaraeon Cymru nifer o bolisïau allweddol a fwriadwyd i gynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys newid y ffordd mae'n buddsoddi mewn chwaraeon i adlewyrchu cyfraniadau chwaraeon at flaenoriaethau Chwaraeon Cymru. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Owen Hathway:

> *"we invest in sports and partners based on that data, and other data, that shows us the size and scale of a partner's ability to have an impact, looking at things like participation and demand. But we also weight things specifically around inequality—so what's their size and scale of impacts when it comes*

---

[14] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[15] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 176
[16] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 176
[17] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 261

> *to women and girls, ethnic minority backgrounds, disabilities, and, indeed, deprivation."*[18]

**33.** O ran cydweithio, dywedodd Chwaraeon Cymru:

> *"how do we ensure that funding that is already in the education system and health system is being used to drive outcomes with sport as the vehicle. It doesn't necessarily have to be more money for sport or Sport Wales, but how do we use funding that's already in the system and prioritise to deliver the outcomes that those sectors want, but using sport as that vehicle for educational attainment or preventative health agendas?"*[19]

**34.** Newid allweddol arall yn y dull a arweinir gan Chwaraeon Cymru yw darparu gweithgareddau chwaraeon drwy bartneriaethau rhanbarthol. Dechreuodd y bartneriaeth ranbarthol gyntaf, Chwaraeon Gogledd Cymru, ar ei gwaith yn gynharach eleni. Dywedodd Prif Weithredwr Dros Dro Chwaraeon Cymru, Brian Davies, wrthym:

> *"Sport on its own isn't the biggest tool. Sport together with education, health, housing and higher education can make a massive difference, and that's what we're trying to do with our regional partnerships."*[20]

**35.** Galwodd yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid am strategaeth gydgysylltiedig gan y Llywodraeth sy'n dangos pwysigrwydd addysg gorfforol, gweithgarwch corfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Dywedodd Emily Reynolds, y Cyfarwyddwr Rhaglenni Cenedlaethol, wrthym:

> *"the bigger question for this is: what is the strategy for children and young people in school sport and in the community, or is the wider strategy—not a Sport Wales strategy, but what is the ambition for every child in Wales in terms of physical education, school sport and physical activity, to enable the Sport Wales strategy and the actions of all partners to be able to achieve that? At the moment, that's probably the gap that I think is missing, so that everybody can work towards and collaborate fully on the ambitions for every*

[18] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 16 Mawrth 2022, paragraff 70
[19] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 16 Mawrth, paragraff 119
[20] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 16 Mawrth 2022, paragraff 97

*child in Wales in terms of not just numbers of minutes, but the approach to the experiences and the opportunities that they should be able to access."*[21]

**36.** Fe wnaeth yr Athro Melitta McNarry, Athro chwaraeon a gwyddorau ymarfer corff ym Mhrifysgol Abertawe, bwynt tebyg i ni. Nododd, er bod gweithgarwch corfforol yn cael ei grybwyll mewn dogfennau polisi, yn anaml y canolbwyntir arno ac yn anaml y'i defnyddir fel dangosydd allweddol o lwyddiant. Ymhelaethodd ar y pwynt hwn drwy ddweud wrthym:

> *"We really do need to start joining up policies and having policies that work to address these multiple things, using probably a whole-system approach, and thereby accounting for the fact that not one of those things happens in isolation. So, we can't just take education, we can't just take health and then look to treat them independently; we need to start looking at their intersections and interactions to get the greatest gains in the shortest period of time, and for the best cost-effectiveness, as well."*[22]

**37.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym nad yw wedi ei hargyhoeddi'n llwyr gan werth targedau oherwydd ei bod o'r farn y gall targedau yrru rhywun i'r cyfeiriad anghywir weithiau.[23]

**38.** Dywedir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cynnal Uwchgynhadledd Chwaraeon yn ddiweddarach eleni "gyda ffocws allweddol ar ystyried sut y gall chwaraeon ysgogi mwy o gyfranogiad yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'n grwpiau anos eu cyrraedd".[24]

## Ein barn ni

**39.** O'r dystiolaeth rydym wedi ei hystyried, mae'n amlwg i ni nad yw dull Llywodraeth Cymru yn ddigon i fynd i'r afael â'r her enfawr o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Nid yw hynny'n golygu nad oes bwriadau da y tu ôl i'r nodau a'r ymrwymiadau gwahanol sydd eisoes yn eu lle – credwn y gallent wneud gwahaniaeth yn unigol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oes ymagwedd glir a diffiniedig a strategaeth wedi ei chyllido'n dda ar frig y llywodraeth. A heb y dull a'r strategaeth ddiffiniedig glir hon, ni

---

[21] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 142
[22] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 263
[23] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 220
[24] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

fydd effeithiau'r ymrwymiadau unigol hynny'n ddigon i newid pethau o ran cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig.

**40.** Credwn fod y dystiolaeth rydym wedi ei hystyried yn dangos nad oes un nod a dull trosfwaol clir yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad byr i ddarparu mynediad cyfartal at chwaraeon. Mae llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru yn cynnwys gofyniad pwysig i sicrhau nad yw grwpiau agored i niwed yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Yn ogystal â hyn, mae nifer o fentrau trawsadrannol yn cael eu rhedeg gan Lywodraeth Cymru sy'n dod o dan faner ehangach chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys y "Gronfa Iach ac Egnïol" sy'n cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â'r strategaeth "Pwysau Iach: Cymru Iach". Unwaith eto, rydym o'r farn bod y rhain yn gynlluniau canmoladwy, ond nid ydym yn argyhoeddedig sut y byddai llwyddiant y camau gweithredu cronnus hyn yn cael ei fesur.

**41.** Mae mesur y cam hwn yn bwysicach fyth mewn cyfnod lle mae pwysau ar gostau byw. Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, mae costau byw uwch yn effeithio ar p'un a yw rhai pobl yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rydym o'r farn bod darparu'r mynediad cyfartal hwnnw at chwaraeon yn bwysig, yn enwedig felly ar hyn o bryd pan fydd rhai yn wynebu dewisiadau anodd o ran yr hyn y gallant ac na allant fforddio talu amdano. Bydd gallu mesur hyn yn sicrhau ein bod yn gwybod pa mor llwyddiannus mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn y maes hwn yn ogystal â rhoi gwybod lle mae angen cymorth ychwanegol.

**42.** Clywsom am sawl enghraifft o fentrau a dulliau gweithredu gwahanol naill ai'n cael eu rhoi ar waith – er enghraifft, rhaglenni cymunedol - neu eraill yn eu camau datblygu cynnar, er enghraifft, partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni mai gweithgareddau a phrosiectau yw'r rhain sy'n gweithio'n gymharol ar wahân i'w gilydd. Heb ddull trosfwaol clir wedi ei bennu o frig y llywodraeth, rydym o'r farn na fydd llwyddiant y prosiectau hyn yn cael ei wireddu'n llawn.

**43.** Bu sawl rhanddeiliad hefyd yn trafod yr angen i ail-fframio'r dull polisi o gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Cwestiynodd Emily Reynolds o'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid beth oedd yr uchelgais i sicrhau y gall yr amrediad ehangaf o grwpiau agored i niwed ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan.[25] Dywedodd yr Athro Melitta McNarry wrthym fod angen dull systemau cyfan lle mae pawb yn cydweithio tuag at nod

---

[25] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 156

cyffredin. Rydym yn meddwl bod enghreifftiau o arfer da yng Nghymru ar hyn o bryd, ond nid ydym o'r farn fod hynny'n gydgysylltiedig.[26]

**44.** Yn ystod gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 ym mis Ionawr 2021, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad."*

**45.** Hyd yma, prin yw'r dystiolaeth a welsom o'r dull hwn. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, yn ogystal â'r cyllid a ddarperir drwy gyllidebau'r Celfyddydau a Chwaraeon, fod yr adran Iechyd hefyd yn darparu cyllid i Chwaraeon Cymru. Roedd y swm hwn yn amrywio o tua £1.5 miliwn yn 2019/20 i £1.6 miliwn yn 2021/22. Swm bychan yw hwn yng nghyd-destun y gyllideb iechyd ehangach. Byddem hyd yn oed yn mynd cyn belled ag awgrymu bod hwn yn swm tila o ystyried y datganiadau a wnaed.

**46.** Rydym o'r farn bod angen newid hefyd yn y negeseuon ynghylch cymryd rhan mewn chwaraeon a bod yn gorfforol egnïol. Mewn gwrandawiad pwyllgor blaenorol, dywedodd y Farwnes Grey-Thompson (Cadeirydd newydd Chwaraeon Cymru) wrthym fod angen i ni gael mwy o bobl nad ydynt yn dda iawn am wneud chwaraeon… mae'n iawn peidio â bod yn dda iawn am wneud chwaraeon a chael hwyl a sbri, cymryd rhan a bod yn egnïol.[27] Er na ddarparwyd y sylwadau hyn fel rhan o'r ymchwiliad hwn, credwn fod neges bwerus wrth wraidd geiriau'r Farwnes Grey-Thompson a ddylai fod yn rhan o'r gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Rydym o'r farn y dylai chwaraeon fod yn bleserus i bawb. Nid bod yn gystadleuol ac ennill ddylai fod y peth pwysicaf, dylai hefyd gynnwys cael hwyl gyda ffrindiau a theulu. Rydym o'r farn y bydd negeseuon o'r fath yn helpu i gynyddu hyder pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Fel yr amlinellwyd yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae cysylltiad cryf rhwng hyder a chyfranogiad mewn chwaraeon.

**47.** Yn olaf, credwn fod cyflawni polisi cyhoeddus yn llwyddiannus yn gyfuniad o ddau beth yn gweithio ar y cyd. Mae'n set o syniadau da sy'n gallu cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol y gellir eu mesur ar gyfer grŵp penodol o'r boblogaeth. Mae hefyd yn gofyn am gefnogaeth eang gan randdeiliaid y mae angen iddynt deimlo fod y polisi yn berthnasol iddynt.

---

[26] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraffau 262-263
[27] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 2 Mawrth 2022, paragraff 26

**48.** Am y rhesymau hyn, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cydweithredol cenedlaethol newydd o ymwneud â chyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Byddai'r dull hwn yn amlinellu uchelgais polisi sy'n benodol ac sydd â thargedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod amser diffiniedig, dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn golygu bod pawb - pob asiantaeth ac adran o'r llywodraeth - yn gweithio tuag at yr un nod cyffredin hwn. Byddai'n darparu cyfeiriad clir gyda phawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r newid hwnnw.

**49.** Hoffem nodi'n glir na fyddai hyn yn golygu dechrau o'r dechrau. Byddai'n golygu y dylai Llywodraeth Cymru osod uchelgais clir ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gyda thargedau clir, cyraeddadwy dros gyfnod penodol o amser. Dylai hyn gynnwys prif nod a osodwyd o'r cychwyn cyntaf. Byddai'n golygu dwyn ynghyd arferion da sy'n bodoli'n barod a sicrhau eu bod yn gydgysylltiedig er budd gwireddu'r uchelgais a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**50.** Fel y nodwyd yn barod, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym o'r blaen y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol gael effaith fawr fel offeryn iechyd ataliol, ond rydym yn pwysleisio bod angen cydweithio gwell i sicrhau hynny. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydnabod mai'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig. Gwyddom y gall diffyg ymarfer corff rheolaidd a lefelau isel o weithgarwch corfforol gael effeithiau negyddol ar iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd unigolion."[28] Mae Ray Williams, sy'n hyfforddwr codi pwysau, wedi sôn yn y gorffennol am y ffaith bod y pandemig wedi amlygu manteision ymarfer corff o ran iechyd cyhoeddus.

> *"We can use this tragedy to make Wales a fitter and healthier nation that is more able to fight chronic illness in the future."*[29]

**51.** Byddai methu bachu ar y cyfle a ddarperir gan y pandemig, lle byddai bylchau cyfranogiad yn ehangu ymhlith y mwyaf anghenus mewn cymdeithas, yn gyfle a gollwyd. Ymhellach, byddai'n gyfle a gollwyd i geisio dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n ceisio cael mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**52.** Bwriedir i'r holl argymhellion a chasgliadau eraill a wnawn o'r ymchwiliad hwn gynorthwyo â'r argymhelliad cyffredinol hwn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cenedlaethol newydd o ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn

[28] Papur briffio gan Sefydliad Iechyd y Byd ar aros yn gorfforol egnïol yn ystod hunan-gwarantîn
[29] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/coronafeirws-chwaraeon/

ardaloedd difreintiedig. Dylai'r dull hwn ddwyn ynghyd y gwaith presennol ac arfer da sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â chyflwyno syniadau newydd i gyfrannu at y dull hwn. Dylai hyn gynnwys targedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod penodol o bum mlynedd, i sicrhau bod cydraddoldeb o ran mynediad at gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

# 3. Rhwystrau rhag cymryd rhan

**53.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym:

> *"Broadly, the main barriers to sport may be structural, institution, personal or social – and in almost all instances, are made up of a combination of these. These barriers impact on people from ethnic minorities, migrants, those with disabilities, elderly people, children, women and girls and people who are gender diverse and often these issues are not isolated but intersectional in their nature. Typically, communities in disadvantaged areas have a higher rate of these inequalities."*[30]

**54.** Nododd Chwaraeon Cymru hefyd pan fo un o'r nodweddion hyn yn croestorri ag un arall, gall cyfleoedd cyfartal i gyfranogi fod yn llai, gydag ansawdd y profiad yn llai ffafriol.[31] Awgrymodd Aled Lewis, Pennaeth Datblygu Pêl-Droed yng Nghymdeithas Bêl-droed Cymru, fod hygyrchedd o fewn cymunedau difreintiedig yn cwmpasu sbectrwm eang o faterion fel fforddiadwyedd, cyfleoedd, mynediad at deithio ac yn y blaen.[32]

**55.** Buom yn ystyried y gwahanol rwystrau drwy gydol yr ymchwiliad. Mae crynodeb o'r dystiolaeth a glywsom wedi ei amlinellu o dan yr is-bennawd perthnasol isod. Mae cyfeiriadau at ddyfyniadau a datganiadau gan gyfweleion yn deillio o'n gwaith ymgysylltu, sydd i'w weld yn ein dogfen **Canfyddiadau ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig**.

## Tystiolaeth a ystyriwyd

### Oedran

**56.** Cawsom sawl ymateb a oedd yn nodi bod sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cadw'n heini ac yn egnïol yn hynod o bwysig. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys gwella iechyd, lleihau unigrwydd a gwella iechyd meddwl.

**57.** Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrthym am nifer o wahanol ffyrdd mae pobl hŷn yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Er enghraifft, gall pobl hŷn fod yn weithgar mewn

---

[30] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[31] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[32] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022 paragraff 48

sefydliadau chwaraeon lleol mewn ffordd wahanol – er enghraifft, drwy wirfoddoli neu gefnogi, nid dim ond drwy gymryd rhan mewn gêm. Fodd bynnag, dim ond 25 y cant o bobl 65-74 oed yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. Mae'r ffigur hwn yn gostwng deg y cant arall ar gyfer pobl dros 75 oed. Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu wrthym fod angen mwy o gymunedau "cyfeillgar i oed" arnom ni:

> *"Un o'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu cyfranogiad pobl hŷn mewn chwaraeon yw eu hiechyd corfforol a'u ffitrwydd eu hunain - mae 31% o bobl dros 65 oed yng Nghymru wedi nodi y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe baent yn fwy heini..... mae 55% o'r rhai rhwng 65 a 74 oed yn dweud nad ydynt byth yn cerdded mwy na 10 munud i fynd i rywle, sy'n codi i 68% ar gyfer y rhai 75 oed a throsodd. 7 Er mai salwch neu gyflwr iechyd fydd yn gyfrifol am hyn i rai pobl hŷn, efallai hefyd mai'r hyn sydd i gyfrif yw bod eu hamgylchedd lleol ddim yn eu cefnogi i fynd allan."*[33]

**58.** Dywedodd un cyfwelai wrthym yn ein hymchwiliad fod pobl hŷn yn teimlo eu bod nhw'n anghofiedig a bod angen i hynny ddod i ben. Ychwanegodd fod cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn helpu o ran unigrwydd ac yn eu hannog i gymdeithasu.

**59.** Dywedodd Emily Reynolds o'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid wrthym mai un o'r rhwystrau mwyaf o ran cymryd rhan mewn chwaraeon yw'r gostyngiad yn yr amser a neilltuir i addysg gorfforol rhwng addysg gynradd ac uwchradd, ar draul pynciau eraill fel rhifedd. Er nad yw hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag ardaloedd difreintiedig yn gyffredinol o bosibl, sgil effaith hynny yw bod pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig yn cael llai o gyfleoedd yn yr ysgol.[34]

**60.** Dywedodd clwb gymnasteg wrthym ei bod yn bwysig dechrau chwaraeon yn ifanc gan ei fod yn helpu i ddatblygu patrymau am oes, ond bod gostyngiad sylweddol mewn cyfranogiad rhwng 12 ac 16 oed.[35]

## Rhywedd

**61.** Nododd sawl cyfranogwr fod diffyg mannau diogel i fenywod a merched, a'r defnydd o iaith negyddol wrth siarad am fenywod a merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon, yn rhwystrau amlwg. Dywedodd un cyfranogwr wrthym:

[33] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[34] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 114
[35] Nodyn yn dilyn ymweliad â chlwb gymnasteg 19 Mai 2022

> *"Rydym wedi treulio'r pedwar neu bum mis diwethaf yn ymgynghori â menywod a merched o bob rhan o'r gêm - o lawr gwlad, yr holl ffordd i fyny i frig y gêm am eu profiadau byw, a rhai o'r pethau allweddol sy'n dod i'r amlwg yw ofn cael eu barnu. Dydyn nhw ddim yn hoffi hyfforddi na chwarae pan fydd pob un o'r timau bechgyn yn eu gwylio oherwydd mae ganddyn nhw ddiffyg hyder."*

**62.** Yn ôl Urdd Gobaith Cymru, mae sut mae merched dros 16 oed yn ystyried chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig yn bryder. Mae prosiect "#FelMerch" y mudiad a sefydlwyd yn ddiweddar yn targedu merched gan fod llawer yn rhoi'r gorau i gymryd rhan mor aml ag yr oeddent mewn chwaraeon ar ôl cyrraedd yr ysgol uwchradd. Maent wedi gweld cynnydd yn ddiweddar yn eu cystadleuaeth rygbi saith bob ochr i ferched. Fel y dywedodd Jo Jones, Rheolwr Rhanbarthol De Cymru Urdd Gobaith Cymru, wrthym, y cam nesaf yw ystyried sut gellir "sefydlu hybiau yn y gymuned a gweithio gydag ysgolion uwchradd, colegau, prifysgolion er mwyn sicrhau bod y merched ifanc yma'n cael mynediad at weithgareddau chwaraeon."[36]

**63.** Dywedodd ColegauCymru wrthym fod rhywedd yn ffactor arwyddocaol o ran cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig yn y sector addysg bellach. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys y ffaith bod cymhelliant merched a'u mwynhad o chwaraeon yn lleihau drwy gydol llencyndod ac yn aml mae agweddau negyddol tuag at chwaraeon yn cael eu ffurfio.[37]

### Daearyddiaeth

**64.** Gall teithio a lleoliad cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol hefyd rwystro cyfranogiad. Nododd nifer o gyfranogwyr y gall hyn amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd, fel lleoliadau gwledig, amlder darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned leol.

**65.** Dywedodd Mark Lawrie, Prif Weithredwr StreetGames, wrthym nad yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n defnyddio darpariaeth chwaraeon cymunedol mewn cymunedau difreintiedig yn teithio llawer pellach na milltir i wneud hynny.[38]

---

[36] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 180
[37] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[38] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 30

**66.** Nododd Nofio Cymru fod y mwyafrif o tua 500 o byllau nofio yng Nghymru wedi eu lleoli yn ne Cymru. Gan hynny, mae mynediad yng ngorllewin a gogledd Cymru yn dibynnu ar argaeledd a fforddiadwyedd dewisiadau teithio.[39]

## Anabledd

**67.** Dywedodd Fiona Reid, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Anabledd Cymru, wrthym fod rhwystrau cymdeithasol eang sy'n lleihau gallu pobl anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon tîm. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â mynediad a gallu teithio i weithgareddau. Dywedodd Fiona Reid fod mynediad yn dda ar y cyfan lle mae pobl yn actif, ond lle nad yw pobl yn actif, mae mynediad yn aml yn un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol.[40]

> ***Pêl-droed Cadair Bŵer (astudiaeth achos gan Glwb Pêl-droed Wrecsam)***
>
> *Mae Clwb Pêl-droed Wrecsam yn rhedeg rhaglen pêl-droed cadair bŵer.*
>
> *Pêl-droed cadair bŵer yw'r unig gamp egnïol i dimau ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn trydan. Mae'n gêm gyflym, ddeinamig, ac natur unigryw'r gamp yn caniatáu i bobl o bob oed (o chwe blwydd oed i fyny), pob rhywedd ac unrhyw anabledd i gystadlu gyda'i gilydd. Mae'r gêm yn defnyddio pêl fwy â diamedr 33cm, ac mae gemau - sy'n cael eu cynnal ar gwrt dan do 30m x 18m - yn cael eu chwarae gan ddau dîm o bedwar chwaraewr.*

**68.** Teimlai cyfranogwyr yn ein cyfweliadau fod rhwystrau i bobl ag anableddau yn cael eu pwysleisio wrth geisio cymryd rhan mewn chwaraeon, ac nad oedd llawer o gyfleoedd posibl ar gael oherwydd diffyg hygyrchedd. Dywedodd un cyfwelai:

> *"Pan ddaw i anabledd mae'r sefyllfa mor annheg. Yn dibynnu ar eich anabledd, ni fyddwch yn cael yr un cyfleoedd. Mae gan hyd yn oed rhywbeth syml fel picio i'r siopau/mynd i'r dafarn gymaint o rwystrau...felly gallwch ddychmygu'r rhwystrau mewn chwaraeon - hygyrchedd, toiledau, yr angen am ofalwyr ac ati."*

[39] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 143
[40] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 36

## Ethnigrwydd

**69.** Dywedodd Mojeid Ilyas, Swyddog Datblygu Cymunedau Amrywiol Criced Cymru, wrthym y gall dod o hyd i le diogel am resymau diwylliannol a chrefyddol fod yn rhwystr, yn enwedig yn achos criced menywod mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, drwy dargedu'r grwpiau hyn gyda mesurau sy'n darparu gwell mynediad, maent wedi gweld cynnydd mewn cyfranogiad.[41]

**70.** Dywedodd Matthew Williams, Pennaeth Polisi Cymdeithas Chwaraeon Cymru, wrthym y gall nodweddion sy'n croestorri greu anfantais bellach:

> *"You're much more likely to be living in poverty if you are from an ethnic minority background, you're much more likely to be living in poverty if you're a single mother with children, and those kinds of things."*[42]

**71.** Nododd cyfranogwyr yn ein cyfweliadau fod diffyg cyfranogiad mewn rhai chwaraeon wedi arwain at rai sgiliau bywyd gwael:

> *"Nid yw 95% o oedolion du a 93% o oedolion Asiaidd yn nofio. Pam fod hynny'n berthnasol? Wel, mae cyfran uchel o'r boblogaeth BAME yn byw o fewn 1 cilomedr i ddyfrffyrdd, hynny yw, llynnoedd, cronfeydd dŵr, camlesi, afonydd, beth bynnag a fynnoch. Mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. A dyma'r un gymuned sydd ag ychydig iawn o wybodaeth am ddiogelwch dŵr, os o gwbl."*

## Costau byw

**72.** Un o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein trafodaethau oedd effaith yr argyfwng costau byw. Nododd llawer o'r hyfforddwyr a gyfwelwyd fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ddyfnach ar fywyd bob dydd mewn ardaloedd difreintiedig a bod hyn yn cael effaith ganlyniadol glir ar gymryd rhan mewn chwaraeon.

**73.** Dywedodd Mark Lawrie o StreetGames wrthym y bydd teulu cyffredin sy'n byw mewn tlodi yn gwario tua £3.75 yr wythnos ar chwaraeon a hamdden egnïol. Nododd mai ffigwr 2019 oedd hwn, felly mae'n siŵr ei fod yn is erbyn hyn.[43] Dywedodd yr Athro Melitta McNarry wrthym ei

[41] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 108
[42] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 222
[43] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 12

bod hi wedi gweld rhywfaint o wybodaeth a oedd yn dangos mai'r swm cyfartalog a wariwyd mewn ardaloedd difreintiedig oedd £1.50 yr wythnos o gymharu â £10 mewn ardaloedd mwy cefnog.[44] Fel enghraifft o hyn, dywedodd un hyfforddwr wrthym:

> *"Rwy'n credu y byddwn yn gweld llawer iawn o broblemau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Beth sy'n dod yn gyntaf, ydych chi am fwyta neu chwarae rygbi? Mae £15 yn gost enfawr i rai teuluoedd, plant yn teithio i gemau oddi cartref – mae costau petrol yn enfawr. Mae'n siŵr o gael effaith barhaol."*

**74.** Cododd hyfforddwr arall bryderon, os bydd cost cymryd rhan mewn chwaraeon yn parhau i godi, ac na ail-fuddsoddir yr arian yn y ffordd gywir, ei fod o'r farn y gwelir effaith hirdymor yn sgil hyn a fydd yn y pen draw yn effeithio ar allu pobl ifanc i gymryd rhan.

**75.** Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym fod yr argyfwng nid yn unig yn taro teuluoedd ond hefyd y darparwyr chwaraeon eu hunain. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys costau ynni, costau adnoddau (hynny yw, cemegau mewn pyllau nofio) a chostau staffio i gyd yn mynd yn ddrutach. Mae hyn ar ben pwysau chwyddiant sydd i ddod.[45]

**76.** Dywedodd un clwb gymnasteg wrthym mai eu prif orbenion yw rhent a chostau ynni, ac os bydd eu costau ynni yn dyblu, bydd hynny'n bygwth eu gallu i barhau. Os byddant yn treblu, bydd hynny'n eu llethu. Fe wnaethant hefyd nodi pe gallent uwchraddio gwresogyddion a goleuadau y byddai hynny'n haneru eu costau ynni.[46]

## Statws economaidd-gymdeithasol

**77.** Er bod ffactorau fel y cynnydd mewn costau byw wedi cael effaith ddofn ar gyfranogwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach, daeth themâu eraill i'r amlwg hefyd. Dywedodd un cyfwelai wrthym:

> *"Rydym yn chwarae rhai clybiau o'r ardaloedd mwy cefnog sydd â rhieni a neiniau a theidiau sy'n cyrraedd awr yn gynnar. Nid yw'r cyfle hwnnw ar gael i'n plant ni; mae fel bod angen newid diwylliant yn y gymdeithas."*

**78.** Dywedodd un arall wrthym:

[44] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 221
[45] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 263
[46] Nodyn yn dilyn ymweliad â chlwb gymnasteg 19 Mai 2022

*"Mae'n sefyllfa annheg i'n plant ni. Chwarae rygbi yn erbyn y clybiau eraill hyn yw un o'r unig adegau lle y bydd y plant hyn yn chwarae mewn sefyllfa gyfartal, boed hynny'n iechyd, addysg neu hyd yn oed disgwyliad oes."*

**79.** Nododd llawer o'r bobl a gyfwelwyd ei bod yn amlwg y gallai statws economaidd-gymdeithasol pobl effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn chwaraeon, a'i bod yn hanfodol gweithio i sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch. Dywedodd un cyfwelai:

*"Dwi wedi gweld plant nad oedd yn bosibl iddyn nhw gymryd rhan – ac mae'n ofnadwy gweld plant/mamau nad ydyn nhw'n gallu cymryd rhan am nad ydyn nhw'n gallu ei fforddio. Sut mae cael eich diffinio yn ôl eich cod post yn deg? Dylai chwaraeon fod yn sefyllfa deg i bawb."*

**80.** Nodwyd hefyd bod rhai cymunedau yng nghanol dinasoedd yn wynebu materion arbennig a oedd yn effeithio ar gyfranogiad pobl, gan gynnwys troseddau, diwylliant a chrefydd.

*"Mae tensiynau amlwg mewn ardaloedd difreintiedig o'r ddinas sy'n effeithio ar gyfranogiad. Mae llawer o broblemau pan fydd timau'n mynd i chwarae mewn ardaloedd sy'n gwrthwynebu ei gilydd o'r ddinas. Rydym wedi gweld trywanu yn digwydd, ac mae pobl ifanc yn rhy ofnus i fynd i chwarae gêm o chwaraeon oherwydd diwylliant gangiau'r ddinas."*

## Cyfleusterau

**81.** Soniodd cyfranogwyr yn ein cyfweliadau am yr effaith mae diffyg cyfleusterau addas yn ei chael ar gymryd rhan mewn chwaraeon. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu bod rhai cynulleidfaoedd yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o chwaraeon, yn enwedig menywod a chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd un cyfwelai mewn perthynas â chyfleusterau chwaraeon merched:

*"Nid yw'r cyfleusterau'n darparu ar gyfer eu hanghenion sylfaenol. Does dim byd sy'n ei gwneud hi'n fwy amlwg i ferch ifanc nad yw hi'n perthyn i bêl-droed na cherdded i mewn i ystafell newid ac mae yna bum wrinal drewllyd ac efallai un toiled â sedd lle nad yw'r clo yn gweithio, ac mae sedd y toiled yn disgyn i ffwrdd ac nid oes biniau hylendid. Mae merched yn dweud wrthym pan fyddan nhw ar eu mislif, ni fyddan nhw'n mynd i'r sesiwn hyfforddi neu ni fyddan nhw'n chwarae pêl-droed."*

**82.** Dywedodd StreetGames wrthym y gall cyfleusterau gyflwyno rhwystrau mewn ffordd wahanol:

> *"the barrier that exists around having the right offer for young people who live in disadvantaged communities, because our experience is that they often want a different offer to the traditional sports club; they want an informal offer that's fun, that they can access with their friends and that, most importantly, is on their doorstep, is outside where they live, because of all the other barriers that they face."*[47]

**83.** Dywedodd Aled Lewis o Gymdeithas Bêl-droed Cymru wrthym fod angen llawer mwy o fuddsoddiad ar draws yr holl chwaraeon yng Nghymru, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Mae angen gwneud hyn i sicrhau bod cyfleusterau o ansawdd da ond hefyd am gost isel fel nad yw costau mynediad y cyfleusterau hynny yn rhwystr.[48] Dywedodd Noel Mooney, Prif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru, wrthym fod ein cyfleusterau ar lawr gwlad yn gwbl warthus yma. Dywedodd fod safon isel y cyfleusterau wedi ei syfrdanu'n fawr.[49]

**84.** Fodd bynnag, gellir lliniaru costau mynediad pan fydd rhywfaint o gydweithio'n digwydd. Dywedodd Jo Jones o Urdd Gobaith Cymru wrthym, diolch i bartneriaethau cryf gyda dwy ysgol mewn un ardal, nad oes unrhyw gost yn gysylltiedig â defnyddio cyfleusterau'r ysgolion, "sy'n ffantastig". Soniodd ei chydweithiwr Gary Jones, Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phresntisiaethau, "Mae'n rhaid i'r ysgolion, sydd efo cyfleusterau rili da ar hyn o bryd, lot ohonyn nhw, agor eu drysau ar ôl 15:30 heb gostio ffortiwn, ac ar benwythnosau. Maen nhw'n lleol i bobl ifanc."[50] Ategwyd y syniad hwn gan yr Athro Melitta McNarry, a ddywedodd:

> *"making schools community hubs is a very sensible use of available resources.. rather than trying to provide new facilities, using the facilities we already have and widening access to them is a much more cost-effective and, you would therefore hope, sustainable approach to promoting community cohesion, but also physical activity and sport participation."*[51]

**85.** Soniodd Brian Davies o Chwaraeon Cymru am waith sydd ar y gweill i ehangu mynediad at gyfleusterau ysgolion ar draws y gymuned:

---

[47] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 18
[48] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 48
[49] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 58
[50] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 116
[51] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 238

> *"There is a programme in place currently looking at beyond the school day and what can be done. We've got 12 pilot schools on board across Wales, looking at how we can maximise those facilities for wider than educational use."*[52]

**86.** Atgoffodd Matthew Williams o Gymdeithas Chwaraeon Cymru ni o ymrwymiad maniffesto yn 2016 i agor cyfleusterau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol er mwyn i chwaraeon gael mynediad atynt. Nododd, er y pandemig, fod cynnydd wedi bod yn araf ar hyn ond eu bod yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r cynlluniau peilot.[53]

**87.** Dywedodd ColegauCymru wrthym fod nifer o sefydliadau wedi buddsoddi'n helaeth mewn cyfleusterau newydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn agored i gymunedau lleol ac ysgolion ac yn darparu cyflogaeth a mannau dysgu o safon i fyfyrwyr.[54]

**88.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y dylai cyfleusterau ysgol fod ar gael i'r gymuned. Er mai Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, yn ogystal â chyrff llywodraethu'r ysgolion eu hunain, sydd â rheolaeth dros ysgolion, dywedodd y gall Llywodraeth Cymru gael dylanwad:

> *"Where we can have more direct influence is where there is direct grant funding to schools… direct Government funding through what was previously twenty-first century schools, where we've seen—I've seen it in my own constituency—and where we've now got schools that have benefited from that direct funding, and have really got state-of-the-art sports facilities…And those schools are opening up their doors to the local community… Afon Tâf High School is a classic case… they've got fantastic sport facilities, and they do open it up to the community, and Active Merthyr Tydfil use it regularly… that is the model that we should be aiming for."*[55]

### Gwirfoddolwyr a staff

**89.** Mae rôl gwirfoddolwyr a staff mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn chwarae rhan bwysig. Mae hyn yn cynnwys pethau amrywiol fel hyfforddi, trefnu logisteg gweithgareddau a

---

[52] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 16 Mawrth 2022, paragraff 121
[53] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 238
[54] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[55] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 203

pharatoi lletygarwch. Clywsom gan nifer o randdeiliaid pa mor hanfodol yw staff a gwirfoddolwyr o ran cymryd rhan mewn chwaraeon.

**90.** Soniodd y rhai a gyfwelwyd yn ein hymchwiliad am yr effaith gadarnhaol y gall hyfforddwyr gwirfoddol a modelau rôl ei chael a'r rôl amhrisiadwy maent yn ei chwarae wrth gynorthwyo cyfranogiad mewn chwaraeon. Amlygwyd pwysigrwydd hyn gan un cyfranogwr:

> *"Pe baech chi'n cynnig £10k i mi ar hyn o bryd neu ddeg o wirfoddolwyr ymroddedig, yna byddwn yn dewis y gwirfoddolwyr bob tro. Maent yn amhrisiadwy ac mae'r gwaith anweledig a wnânt i gefnogi cyfranogiad mewn chwaraeon yn anghredadwy."*

**91.** Dywedodd Urdd Gobaith Cymru wrthym fod systemau gwirfoddoli yn gallu creu cyfleoedd eraill. Dywedasant wrthym am un enghraifft mewn ysgol yn Abertyleri lle'r oedd disgyblion hŷn oedran ysgol a oedd yn gwirfoddoli yn yr ysgol yn gweithio fel rhan o raglen i ymestyn y diwrnod ysgol. Roedd hyn o fudd ychwanegol i Urdd Gobaith Cymru gan fod y mudiad hefyd yn chwilio am ffyrdd o ddatblygu'r iaith ar draws yr ysgol a'r gymuned.[56]

**92.** Trafododd Chwaraeon Anabledd Cymru effaith wirioneddol colli gwirfoddolwyr, gan ddefnyddio pandemig Covid-19 fel enghraifft:

> *"During that period, a number of volunteers were, obviously, removed from the types of activity that they were used to providing, and haven't necessarily returned to facilitating activity."*[57]

**93.** Amlinellodd sawl corff llywodraethu a siaradodd â ni pa mor bwysig oedd gwirfoddolwyr i'w campau priodol. Dywedodd Aled Lewis o Gymdeithas Bêl-droed Cymru fod bron pob cymuned yng Nghymru yn cael eu gyrru gan rwydwaith gwych o wirfoddolwyr.[58] Dywedodd Phil John, Is-gadeirydd Pêl-fasged Cymru, wrthym fod bwrdd ei sefydliad i gyd yn wirfoddolwyr, ac mai gwirfoddolwyr sy'n gyrru'r gamp.[59]

---

[56] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraffau 118-121
[57] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 78
[58] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 47
[59] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraffau 172-179

**94.** Roedd staffio yn faes allweddol arall a drafodwyd gan lawer o dystion. Dywedodd StreetGames wrthym pa mor bwysig yw cael y staff iawn yn y lle iawn i lwyddiant unrhyw waith sy'n ymwneud â chwaraeon neu weithgarwch corfforol:

> *"The two critical bits for us are also about the right workforce—so, having the right local people who connect well with children and young people in these communities, who understand their lives, and people like them, if those people aren't there, if they're not supported, if they're not able to be supported with training, then that becomes really tricky."*[60]

## Modelau rôl

**95.** Gall modelau rôl chwarae rhan bwysig ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Gallant effeithio ar y ffordd mae pobl yn ymddwyn drwy ddarparu cymhelliant ac ysbrydoliaeth. Mae hyn yn hynod bwysig mewn ardaloedd difreintiedig fel y dywedodd nifer o dystion wrthym.

**96.** Dywedodd un cyfranogwr wrthym yn ystod ein gwaith ymgysylltu am y pŵer y gall sêr chwaraeon rhyngwladol ei gael ar lefel leol o ran cymryd rhan mewn chwaraeon:

> *"Yn ogystal â hynny, mae'r ffaith bod gan y modelau rôl lleol hynny fodelau rôl ysbrydoledig a hygyrch yn helpu. Rhywun fel Marnus Labuschagne sy'n chwarae i Forgannwg, rydym yn ceisio eu defnyddio 100 y cant. Mae Marnus newydd ddychwelyd o Bacistan ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r gymuned de Asiaidd. Er enghraifft, mae'n wynebu Afridi, y bowliwr cyflym o Bacistan yr wythnos hon, ac mae'r diddordeb wedi bod yn anhygoel. Rydym yn cynnal digwyddiad ym mhafiliwn Grangetown ym mis Mai hefyd. Mae'n helpu pan fydd gennych chi'r chwaraewyr hynny o'r radd flaenaf y gall pobl ifanc feddwl yn fawr ohonyn nhw."*

**97.** Nid oes angen i fodelau rôl ychwaith fod yn sêr byd-enwog yn eu meysydd priodol. Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod cael y modelau rôl cywir mewn ardaloedd difreintiedig yn hanfodol i alluogi pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dywedodd un cyfwelai wrthym:

> *"Rwy'n teimlo fy mod i'n fwy na'u hyfforddwr, rydych chi'n dod yn fodel rôl. Mae cael modelau rôl cadarnhaol yn hanfodol i gyfranogiad, yn enwedig ar rai oedrannau lle mae pobl ifanc 14/15 oed yn gadael. Rydych chi'n tueddu i*

[60] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 17

> *golli plant o ardaloedd penodol i alcohol, cylchoedd cymdeithasol sy'n newid, troseddu a chyffuriau. Dwi wedi profi a gweld hynny'n digwydd."*

**98.** Teimlai cyfranogwyr fod modelau rôl cadarnhaol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar rai grwpiau, fel menywod a merched, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phobl ag anableddau. Dywedodd un cyfwelai wrthym:

> *"Mae gennym ferch o ysgol uwchradd leol sy'n cynnal sesiynau cyfoedion. Mae'r plant yn ei hadnabod ac yn caru'r sesiynau; maen nhw'n dod yma dim ond am ei bod hi yma, ac mae'r nifer sy'n dod yn enfawr. Rwy'n amau y byddai hynny wedi digwydd fel arall. Mae cael arbenigedd lleol a modelau rôl yn hanfodol yn y cymunedau hyn."*

**99.** Dywedodd cyfwelai arall wrthym am y pŵer a ddaw drwy gael modelau rôl o fewn yr un gymuned:

> *"Dwi'n meddwl mai un o'r pethau mwyaf pwerus dwi wedi'i weld ers hynny yw un o'n rhaglenni lle yr oedd gennych chi bwll yn llawn nofwyr du neu Asiaidd ac roedden nhw mewn un sesiwn. Roedd achubwr bywyd du hefyd. Ac roedd hi'n waw, mae'n taro deuddeg cyn lleied o hynny yr ydym wedi'i weld, a pha mor bwysig yw hi mewn gwirionedd i gefnogi cyfranogiad."*

## Ein barn ni

**100.** Fel yr amlinellir yn y bennod hon, mae nifer y rhwystrau sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yn niferus. Mae rhai o'r straeon a rannwyd gyda ni drwy ein hymgysylltiad dan arweiniad dinasyddion yn dangos pa mor heriol ac arswydus yw'r rhwystrau sy'n wynebu pobl. Mae'r data a gasglwyd gan Savanta Comres ym mis Awst 2021 hefyd yn dweud wrthym fod pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai hyderus na'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch wrth ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon. Dangosodd yr un data i ni hefyd fod y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o ystyried ei bod yn bwysig ymarfer corff ac yn llai tebygol o weld ymarfer corff fel rhywbeth pleserus sy'n rhoi boddhad.[61] O ystyried y materion rydym wedi eu nodi yn y bennod hon ochr yn ochr â data'r arolwg, nid ydym yn synnu bod pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn teimlo'n llai hyderus wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

[61] www.chwaraeon.cymru/ymchwil-a-gwybodaeth/comres/

**101.** Gall problemau o ran hyder godi o gyfleusterau gwael iawn; diffyg darpariaeth chwaraeon y tu hwnt i'r chwaraeon traddodiadol; teithio mwy na milltir i gymryd rhan mewn gweithgareddau; neu ofni cael eu barnu, o bosibl, oherwydd y ffordd maent yn edrych, i enwi dim ond rhai pethau. Credwn y bydd mynd i'r afael â'r rhwystrau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, ar y cyd, yn arwain at gynnydd mewn hyder i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Fodd bynnag, dim ond crafu'r wyneb mae ein gwaith ar hyn wedi ei wneud, ac mae'n haeddu ymchwiliad pellach – a gorau i gyd po gyntaf y digwydd hynny.

**102.** Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i Chwaraeon Cymru yn cynnwys gofyniad i nodi a darparu cyfleoedd sy'n galluogi pobl o grwpiau difreintiedig i elwa ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Credwn fod yn rhaid gwneud y gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth, a byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid prosiect ychwanegol i Chwaraeon Cymru i'w alluogi i ddigwydd yn awr. Gorau po gyntaf y gallwn nodi'r materion hyn, er mwyn i ni allu creu llif o ymyriadau i fynd i'r afael â nhw. Rydym o'r farn y bydd hyn yn rhoi hwb i hyder mewn ardaloedd difreintiedig ac yn arwain at y cynnydd hwnnw mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol rydyn ni i gyd yn dymuno ei weld.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid prosiect ychwanegol ar fyrder i Chwaraeon Cymru i'w alluogi i wneud gwaith i nodi a darparu cyfleoedd sy'n galluogi pobl o grwpiau difreintiedig i elwa ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**103.** Gan ddilyn y syniad o ddamcaniaeth enillion ymylol, credwn y gallai ein hargymhellion eraill yn yr adroddiad hwn gyda'u gilydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i leihau effaith y rhwystrau hyn. Er enghraifft, gallai gosod nod cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig, ynghyd â hwb ariannol sylweddol, wneud gwahaniaeth o ran materion sy'n codi o dan gostau byw ac ar draws y nodweddion gwarchodedig. Nid ydym wedi gwneud argymhellion penodol ynghylch rhwystrau unigol a drafodwyd yn y bennod hon am y rheswm a drafodwyd uchod; teimlwn fod angen mwy o waith ar y mater. Fodd bynnag, yr un rhwystr yr ydym yn teimlo y gallwn ei drafod yw mynediad at gyfleusterau.

**104.** Mae mynediad at gyfleusterau o ansawdd uchel yn rhan hanfodol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Gall hwn fod yn ardal gemau aml-ddefnydd briodol mewn cymuned leol neu'n faes chwarae pob tywydd â llifoleuadau. Yr un sefydliad, sydd wedi ei leoli yng nghanol pob cymuned yng Nghymru, yw'r ysgol leol. Credwn y gallai ysgolion fod yn allweddol i agor mynediad a darparu mannau addas i gymunedau difreintiedig gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn ychwanegol at y neuaddau cymunedol, meysydd chwaraeon a chyfleusterau hamdden preifat niferus eraill sy'n bodoli.

**105.** Drwy gydol yr ymchwiliad, dywedwyd wrthym pa mor bwysig oedd agor cyfleusterau ysgolion. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y dylai cyfleusterau ysgolion fod ar gael i'r gymuned, ac rydym yn cytuno'n llwyr. Oherwydd y buddsoddiad sydd wedi digwydd drwy'r rhaglenni Ysgolion yr 21ain ganrif a Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, mae cyfleusterau yn llawer gwell erbyn hyn nag y buont ers nifer o flynyddoedd.

**106.** Rydym hefyd yn ymwybodol o fuddsoddiad diweddar Llywodraeth Cymru o £25 miliwn mewn ysgolion bro yng Nghymru.[62] Mae ysgolion bro yn sefydliadau sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau, yn aml y tu hwnt i oriau ysgol, i ddiwallu anghenion disgyblion a'u cymuned leol. Gall hyn gynnwys cymorth astudio ychwanegol, agor cyfleusterau TGCh neu ddarparu rhaglenni chwaraeon cymunedol. Bwriad y cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod mwy o ysgolion yng Nghymru yn gallu gweithredu fel ysgolion bro. Dywed:

> *"Bydd £20m yn cael ei fuddsoddi yn y gwaith o ddarparu ysgolion bro, i ariannu ffyrdd ymarferol o wella cyfleusterau ysgolion er mwyn i'r gymuned allu gwneud gwell defnydd ohonynt. Mae hyn yn cynnwys darparu storfeydd cyfarpar ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau allgyrsiol, gwella goleuo allanol mewn ardaloedd chwaraeon, a chyflwyno mesurau diogelwch er mwyn i ardaloedd y mae'r ysgol a'r gymuned yn eu defnyddio allu cael eu cadw ar wahân."*[63]

**107.** Wrth gwrs, mae agor ysgolion lleol er budd cymunedau yn ateb amlwg i fynd i'r afael â rhwystr cyfleusterau digonol. Mae'n sicrhau y gellir lliniaru'r heriau sy'n ymwneud â chyfleusterau gwael ar lawr gwlad mewn mannau eraill i ryw raddau. Mae ysgolion fel arfer wedi eu lleoli ar garreg drws ein holl gymunedau, sy'n lleihau amser teithio; fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn bob amser yn wir am ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd yn ddefnydd hynod effeithlon o adnoddau ac yn gwneud y defnydd gorau o'r hyn sy'n aml yn gyfleusterau newydd o ansawdd uchel. Gwerthfawrogwn y gall fod pryderon ynghylch diogelwch a chostau wrth agor ysgolion, ond dylai'r gost o liniaru'r rhain fod yn fach o gymharu ag adeiladu cyfleusterau newydd sbon.

**108.** Mae'n amlwg i ni fod nifer o fentrau unigol ar y gweill a allai fod yn bwysig yn eu ffordd eu hunain: cynllun peilot Llywodraeth Cymru; y cyllid i ddatblygu ysgolion bro ymhellach; a chynllun peilot Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, yn unol â'n hargymhelliad cyntaf, nid yw'n

[62] https://llyw.cymru/buddsoddi-25m-mewn-ysgolion-bro-i-fynd-ir-afael-ag-effaith-tlodi
[63] https://llyw.cymru/buddsoddi-25m-mewn-ysgolion-bro-i-fynd-ir-afael-ag-effaith-tlodi

ymddangos fod hyn yn gydgysylltiedig. Efallai'n wir fod yr holl ddarnau unigol hyn o waith yn gysylltiedig, ond nid yw hynny'n glir i ni ar hyn o bryd.

**109.** Er ein bod yn deall bod y cynlluniau peilot yn mynd rhagddynt, ac na fyddem yn dymuno rhagfarnu eu canlyniadau, rydym o'r farn y dylem wneud argymhelliad yn awr yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi ei hystyried. O'r herwydd, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd pob cam o fewn ei gallu i sicrhau bod pob ysgol sydd â'r cyfleusterau priodol yn cael ei hagor y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Dylai hyn fod yn wir ar gyfer pob cymuned yng Nghymru, ond credwn yn y lle cyntaf y dylid rhoi'r flaenoriaeth i sicrhau mynediad teg i ardaloedd difreintiedig o ystyried maint y rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Hynny yw, wrth flaenoriaethu ardaloedd o'r fath, rydym o'r farn ein bod ni'n debygol o weld y newid cyflymaf a mwyaf arwyddocaol.

**110.** Rydym o'r farn, ar ôl cwblhau'r cynlluniau peilot gwahanol, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd. Mae hyn yn cynnwys deall sut mae'r buddsoddiad ychwanegol ar gyfer ysgolion bro wedi cael ei ddefnyddio a'r buddiannau a ddeilliodd o hynny. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o gyfleusterau cymunedol ac ysgolion i nodi'r hyn sy'n bodoli. Dylai'r archwiliad nid yn unig ystyried argaeledd cyfleusterau ond hefyd ansawdd yr hyn sydd ar gael o ystyried yr hyn a ddywedodd tystion wrthym am gyflwr gwael rhai cyfleusterau. Dylid cynnwys hygyrchedd y cyfleusterau hyn yn yr archwiliad hwn – hynny yw, a ellir cael mynediad atynt ar droed neu drwy ddulliau teithio cyhoeddus, ynteu a oes angen teithio mewn car preifat i'w cyrraedd. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle mae angen teithio pellteroedd hirach i gael mynediad atynt mewn rhai achosion. Dylai'r archwiliad hefyd nodi unrhyw gyfle sydd ar gael i gydweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

**111.** Unwaith y bydd yr archwiliad hwn wedi ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd sydd angen y cymorth mwyaf a gofalu bod y cyllid angenrheidiol ar gael i sicrhau bod cynnydd mewn cyfleoedd chwaraeon a chorfforol yn yr ardaloedd hyn. Byddai'r dull hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru dargedu ei hadnoddau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

i. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canfyddiadau'r rhaglenni peilot gwahanol sy'n cael eu cynnal ynghylch agor ysgolion i'r gymuned ehangach eu defnyddio, ac adrodd ar

ei chanfyddiadau mewn dogfen a fydd yn cael ei chyhoeddi ddim hwyrach na mis Gorffennaf 2023.

ii. Gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal archwiliad Cymru gyfan o gyfleusterau chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio, gan gynnwys sylw arbennig i leoliad ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

iii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

i. Gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr cyfleusterau hamdden a chlybiau chwaraeon i gynnal archwiliad Cymru gyfan o'r cyfleusterau hyn i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio.

ii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd.

# 4. Cyllid

**112.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r mwyafrif helaeth o'i chyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol drwy ei phrif gorff a noddir, Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu cyllid ar gyfer rhaglenni eraill drwy wahanol adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus.

## Cyllid Llywodraeth Cymru

**113.** Yn nogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2022-23 Llywodraeth Cymru, dywedir:

> *"Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein hiechyd corfforol, ac wedi creu argyfwng iechyd meddwl. Yn ogystal â'r buddsoddiad uniongyrchol yn y GIG, byddwn yn buddsoddi £100m yn ychwanegol wedi'i dargedu at iechyd meddwl, gan gynnwys cyllid yn ychwanegol i'r cyllid i GIG Cymru a amlinellir uchod a mwy na £10m ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gydnabod risgiau'r effeithiau parhaol a hirdymor a deimlir gan ein pobl ifanc yng Nghymru."*[64]

**114.** Yn ystod ein gwaith **dilynol** ar y mater hwn gyda Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, a'r Dirprwy Weinidog, gofynnom am fanylion am gyllid chwaraeon ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Yn eu hateb, dywedasant wrthym:

> *"Mae cydweithio ar draws adrannau a chyllidebau wedi bod yn allweddol, a bydd yn parhau i fod yn allweddol, er mwyn creu newidiadau hirdymor a chynaliadwy o ran cyfranogiad. Mae rhai enghreifftiau gwych o weithio ar draws adrannau yn cynnwys y Gronfa Iach ac Egnïol sy'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau arloesol sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad. Yn ogystal â'n hadran, mae'r Adran Iechyd hefyd wedi darparu cyllid fel a ganlyn i Chwaraeon Cymru dros y 3 blynedd diwethaf: 2019/20 £1.465m; 2020/21 £1.640m; 2021/22 £1.606m."*[65]

**115.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog dywedodd wrthym fod Cymru wedi gweld y lefel uchaf erioed o fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau chwaraeon - £24 miliwn.[66]

[64] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2022-23
[65] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2022-23 ymateb gan Weinidogion
[66] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 180

**116.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym y byddai newid bach i gyllideb iechyd fawr yn gwneud gwahaniaeth mawr i gyllideb chwaraeon fach, a byddai'n arwain at fanteision enfawr o ran iechyd y cyhoedd.[67]

## Cyllid Chwaraeon Cymru

**117.** Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar chwaraeon, ac mae'n cynorthwyo'r gwaith o gyflawni ei blaenoriaethau strategol. Mae'n cael y rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn dosbarthu grantiau'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon elît ac ar lawr gwlad. Fel yr amlinellwyd yn barod, mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r cyllid a ddarperir iddo gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i lythyr cylch gwaith.

**118.** Buom yn ystyried cyllid Chwaraeon Cymru yn ystod ein sesiwn graffu ddiweddar ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23. O gymharu â chyllideb derfynol 2021-2022, mae cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru yn cynyddu o £22.4 miliwn i £22.7 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 (cynnydd o 1 y cant mewn termau arian parod). Rhagwelir y bydd y cyllid hwn yn cynyddu i £24.1 miliwn erbyn 2024-25.[68]

**119.** O gymharu â Chyllideb Derfynol 2021-2022, mae cyllid cyfalaf ar gyfer Chwaraeon Cymru yn gostwng o £8.6 miliwn i £8 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 (gostyngiad o 7 y cant mewn termau arian parod).[69] Rhagwelir y bydd y cyllid hwn yn parhau ar £8 miliwn tan 2024-25.[70]

**120.** Yn ystod pandemig Covid-19, darparodd Llywodraeth Cymru £66.5 miliwn yn ychwanegol i gefnogi'r diwydiant chwaraeon a hamdden mewn ymateb i gyfyngiadau. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Nid oes unrhyw amheuaeth, heb y cymorth ariannol hwn, na fyddai'r sector wedi cael niwed anadferadwy a fyddai wedi cael effaith hirhoedlog ar iechyd a llesiant y genedl."*[71]

---

[67] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[68] Gwaith Craffu'r Senedd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23
[69] Roedd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn dadlau ynghylch y dadansoddiad hwn mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor. Roeddent yn gwahaniaethu rhwng y cyllid cyfalaf craidd ar gyfer eleni [2021-22] (£6.629 miliwn) a'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd mewn gwirionedd i Chwaraeon Cymru ar gyfer eleni yn y Gyllideb Derfynol (£8.6 miliwn).
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2022-23
[71] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

## Model buddsoddi Chwaraeon Cymru

**121.** Ym mis Medi 2021, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Sport Wales, over the last two years, have been engaging very robustly, openly and transparently with all the different governing bodies around Wales in terms of looking at a new funding formula moving forward, where they look at different metrics for how they fund those sports, so those sports can increase participation; more diversity et cetera would attract more funding with the aim of creating more diverse people in sport, basically."*[72]

**122.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn, dywedodd Chwaraeon Cymru:

> *"Nid ydym yn ymddiheuro am y ffordd yr ydym yn buddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru … Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y ffordd yr ydym yn defnyddio arian cyhoeddus."*[73]

**123.** Cododd nifer o dystion, gan gynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Criced Cymru ac Undeb Rygbi Cymru, bryderon ynghylch model buddsoddi Chwaraeon Cymru. Dywedodd Brian Davies wrthym:

> *"the change in the investment approach we're trying to make here, which is we prioritise those areas of greatest need, and that hasn't always been the case before. There has been a mantra many, many, many years ago about 'sport for sport's sake'. This is the shift we're trying to take here, to show the power of sport, the ability of sport, to make a difference to their communities."*[74]

**124.** Dywedodd Noel Mooney o Gymdeithas Bêl-droed Cymru wrthym bod angen adnoddau ychwanegol ar y Gymdeithas i wella'r gêm ar lawr gwlad. Dywedodd fod y Gymdeithas tua £150 miliwn yn brin o lle hoffai fod. Ychwanegodd ei fod wedi ei syfrdanu gan ba mor wael oedd y cyfleusterau ar lawr gwlad yng Nghymru. Rhannwyd y pryderon hyn gyda ni, ac ar yr un pryd, bydd grant y Gymdeithas gan Chwaraeon Cymru yn gostwng 27 y cant oherwydd newid yn y model buddsoddi.[75] Ategwyd y pryderon ynghylch cyllid gan Geraint John, Pennaeth

---

[72] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 15 Medi 2021, paragraff 189
[73] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[74] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 16 Mawrth 2022, paragraff 97
[75] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 58

Cyfranogiad yn Undeb Rygbi Cymru, a ddywedodd wrthym y byddai dros 30 y cant o ostyngiad yng nghyllid yr Undeb.[76]

**125.** Dywedodd Leisha Hawkins, Prif Swyddog Gweithredol Criced Cymru, wrthym bod criced yng Nghymru yn wynebu toriad mwy sylweddol. Cododd bryderon am ganlyniad anfwriadol yr hyn mae Criced Cymru yn ei alw'n fodel buddsoddi newydd 'anhyblyg', y mae o'r farn y bydd yn debygol o or-gyllido chwaraeon nad ydynt, yn gyffredinol, yn cael eu cyrchu gan gymunedau difreintiedig, nac yn hygyrch iddynt. Ychwanegodd nad oedd hi wedi ei hargyhoeddi bod y model presennol yn cydnabod pa mor anodd a faint o amser a buddsoddiad mae'n ei gymryd i newid bywydau o ddifrif, a dywedodd fod y rhaglenni hyn yn newid bywydau.[77]

**126.** Dywedodd yr Athro Melitta McNarry a Matthew Williams, Pennaeth Polisi Cymdeithas Chwaraeon Cymru, wrthym fod Chwaraeon Cymru yn gwneud gwaith da o fewn terfynau'r cyllid maent yn ei dderbyn. Amlygodd Urdd Gobaith Cymru a'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid y dull cadarnhaol y gallai model a strategaeth cynllunio cyllid tymor hwy ei sicrhau.

## Tystiolaeth a ystyriwyd

**127.** Roedd gan nifer o randdeiliaid farn wahanol ar y cyllid a ddarperir ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Amlinellir y rhain isod.

### Safbwyntiau sefydliadau ac elusennau cenedlaethol

**128.** Dywedodd Owen Hathway o Chwaraeon Cymru wrthym:

> *"we have community funding streams as well; it's probably our most effective immediate policy tool… trying to ensure the funding goes to areas of high deprivation and need more heavily within our crowdfunder funding stream."*[78]

**129.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i ni, nododd Chwaraeon Cymru fod y cynllun peilot cyllid torfol hwn wedi ymhelaethu ar y cyllid hwnnw ar gyfradd o 2.7, sy'n golygu bod clybiau cymunedol yn cael £2.70 am bob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus.[79]

---

[76] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 91
[77] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 104
[78] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 16 Mawrth, paragraff 99
[79] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig

**130.** Cyfeiriodd Noel Mooney o Gymdeithas Bêl-droed Cymru at ddiffyg cyllid, gan ddweud:

> *"we're about £150 million short of anywhere near the facilities we need to have to have a game that functions normally, compared to our neighbours next-door."*[80]

**131.** Dywedodd Gary Lewis o Urdd Gobaith Cymru wrthym fod dull cyllido mwy cynaliadwy yn allweddol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Dywedodd wrthym fod partneriaeth a chydweithio rhwng sefydliadau yn allweddol i hyn.[81]

**132.** Pwysleisiwyd y pwynt hwn ymhellach gan Emily Reynolds o'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid, a nododd fod cydweithio'n dod yn haws pan fyddwch chi'n gwybod at beth rydych chi'n gweithio. Dywedodd y dylai'r arian ategu'r nod neu'r strategaeth, ond os na fydd hynny'n egwyddor arweiniol, bydd arian yn dal i fynd a dod.[82]

**133.** Cwestiynodd Urdd Gobaith Cymru gynaladwyedd rhaglenni cyllido. Fe wnaeth y mudiad ddefnyddio enghraifft y rhaglen "Gaeaf Llawn Lles" a roddodd fodd iddynt wneud gwaith mewn rhai meysydd am y tro cyntaf. Dywedodd Gary Lewis wrthym:

> *"sut sut ydyn ni'n gweithredu ar hwnna ar ôl i'r arian yna stopio? Dwi'n meddwl bod rhaid inni gael rhyw fath o blan hirdymor efo'r Llywodraeth, Chwaraeon Cymru, sydd yn grêt efo ni - maen nhw'n gefnogol iawn - ond mae'n rhaid inni gael y partneriaeth yna a'r* collaboration *rhwng y mudiadau."*[83]

**134.** Dywedodd Victoria Ward, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Chwaraeon Cymru, wrthym fod "Haf o Hwyl" a "Gaeaf Llawn Lles" yn rhaglenni gwych, ond gofynnodd a oes unrhyw hirhoedledd yn hynny.[84]

**135.** Cyfeiriodd gwahanol gyrff llywodraethu chwaraeon hefyd at fater cyllid hirdymor a chynaliadwy. Dywedodd Leisha Hawkins o Griced Cymru wrthym y byddai buddsoddiad

[80] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 91
[81] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 110
[82] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 144
[83] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022, paragraff 110
[84] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 229

cynaliadwy hirdymor ar frig eu rhestr siopa, a dywedodd Noel Mooney o Gymdeithas Bêl-droed Cymru wrthym:

> *"It's easy for us to go in and get up the bunting and take photographs with the local politician who's opening some short-term programme. That's not what we're about; we do long-term programmes that give really clear social return investment for taxpayers' money."*[85]

## Safbwyntiau'r rhai sydd â phrofiadau byw

**136.** Ym mis Ebrill 2022, fe wnaethom gynnal cyfres o gyfweliadau gyda phobl sydd â phrofiad byw o chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yn ne Cymru.[86] Soniodd y cyfranogwyr am yr angen am gyllid wedi ei dargedu'n well i gefnogi cymunedau difreintiedig, a nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod cyllid yn aml yn teimlo fel loteri cod post:

> *"Mae llawer o arian yn cael ei gyfeirio at gymunedau BAME, ond nid yw Trelái, er enghraifft, yn cael ei dosbarthu fel cymuned BAME ond mae'r plant hynny'n dal i fod yno. Mae'n loteri cod post hyd yn oed mewn ardaloedd difreintiedig. Mae Caerdydd mor amlddiwylliannol fel y dylai cyllid gael ei ddyrannu ar draws y ddinas gyfan. Mae problemau tlodi ledled y ddinas."*

**137.** Soniodd rhai cyfranogwyr am yr anawsterau a wynebir wrth wneud cais am gyllid:

> *"Nid yw manteision hirdymor cyllid tymor byrrach yn cael eu gweld. Gwnaethom dreulio cymaint o oriau yn gwneud y cais am gyllid a dywedodd nifer o bobl wrthym ei fod yn fater hollol syml, cefnogodd sefydliadau cymunedol ein cais ond ni lwyddodd i dicio bwlch penodol ac yn y diwedd fe'i gwrthodwyd. Pam na all cyllidwyr posibl ddod allan i weld yr effaith."*

**138.** Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid rhoi cyllid yn uniongyrchol i gymunedau yn hytrach na 'rhywun yn y canol':

> *"Members of the community want more money to come directly to them and cut out organisational management fees. Stop always giving money to the same organisations, it needs to come directly to communities."*

---

[85] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 60
[86] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig

**139.** Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynghylch ffioedd rheoli a rheolwyr sy'n cael eu 'parasiwtio i mewn' i gynnal prosiectau chwaraeon nad ydynt yn gyfarwydd â'r gymuned:

> *"Stop giving money to certain organisations all the time. I had a phone call pre-Christmas from an organisation that had funding to deliver here. They had no local knowledge and that's a big problem."*

## Enghreifftiau rhyngwladol

**140.** Ar adegau yn ystod yr ymchwiliad, tynnodd tystion ein sylw at arfer da mewn rhannau eraill o'r byd o ran ymdrin â chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

**141.** Trafododd Matthew Williams o Gymdeithas Chwaraeon Cymru Norwy a Seland Newydd fel enghreifftiau, sy'n aml yn cael eu gweld fel rhai sy'n arwain y byd o ran cyfranogiad mewn chwaraeon:

> *"It's really important to emphasise that they spend between five and 10 times the amount that we do on sport. Wales does very, very, very well on participation and on elite performance off a relatively small slice of investment. And our comparator nations often outspend us significantly to achieve similar results".*[87]

**142.** Dywedodd swyddogion o Ihi Aotearoa (Chwaraeon Seland Newydd) wrthym am gynllun peilot Active Me - Kia Tū yr oeddent yn ei gynnal, ar y cyd ag elusen blant yn Seland Newydd (Variety NZ), sy'n darparu cymorth ariannol i leihau rhwystrau i fod yn egnïol i hyd at 3,000 o blant a phobl ifanc yn Auckland a Northland. Mae hwn yn gynllun peilot dros gyfnod o ddwy flynedd a fydd yn cynnig hyd at $300 y flwyddyn i bob plentyn ac unigolyn ifanc i helpu i dalu am offer newydd, ffioedd cofrestru, gwisgoedd neu gostau eraill i'w helpu i fod yn egnïol yn y ffyrdd maent yn dymuno bod yn egnïol. Darperir y cyllid hwn yn uniongyrchol i'r unigolyn i'w helpu i gael mynediad at weithgareddau o'i ddewis.

**143.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym yn ystod ein hymchwiliad fod cyllid ar gael yng Nghymru ar gyfer mynediad at bob math o offer, nid dim ond gwisg ysgol, ond hefyd offer chwaraeon (y Grant Datblygu Disgyblion). Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod hyn ar gyfer unrhyw beth sydd ei angen ar blentyn, yn enwedig yn y cyfnod pontio hwnnw o'r ysgol

[87] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 250

gynradd i'r ysgol uwchradd, lle mae prynu offer fel arfer yn rhan o'r broses gwisg ysgol - cit campfa ac ati.[88]

## Ein barn ni

**144.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod amrywiaeth barn ar y ffordd orau o wario arian i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Fodd bynnag, un peth sy'n amlwg i ni yw bod budd sylweddol o roi cyllid ar sylfaen fwy cynaliadwy, hirdymor.

**145.** Nododd sawl rhanddeiliad fod prosiectau tymor byr yn werthfawr am y cyfnod y buont ar waith, ond ar ôl iddynt gael eu gorffen, dyna ddiwedd ar bethau. Nododd eraill y gwerth y byddai buddsoddiad tymor hwy yn ei ddarparu o ran hirhoedledd a buddion cymdeithasol. Cytunwn yn llwyr â'r sylwadau hyn. Fodd bynnag, rydym yn deall pam nad yw hyn wedi digwydd yn y gorffennol o bosibl, o ystyried sut mae cyllid llywodraeth ddatganoledig yn gweithredu. Mae symudiad diweddar Trysorlys EM i ddarparu cylchoedd cyllideb tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn newid hyn.

**146.** Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru yn awr ddefnyddio'r cylch cyllido tair blynedd hwn er budd cyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Am y tro cyntaf y llynedd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllidebau dangosol tair blynedd. Gan hynny, ni welwn unrhyw reswm pam na ellir cyfeirio hyn i lawr y system ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar lawr gwlad. Byddai'r symudiad hwn yn gyson â'n hargymhelliad cyntaf ar gyfer dull gweithredu cenedlaethol newydd, a fyddai'n galluogi gwell cydweithio rhwng partneriaid. Credwn y gallai gwell cydweithio, gyda system gyllido gynaliadwy, gynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig yn sylweddol.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cyllido chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yn cael eu rhoi ar gylchoedd cyllido tymor hwy.

**147.** Yn ogystal â rhoi cyllid ar sylfaen fwy cynaliadwy, rydym o'r farn, os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei huchelgeisiau presennol, fod angen iddi ddarparu llawer mwy o gyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

**148.** Buom yn trafod droeon yn ystod yr ymchwiliad hwn syniad Llywodraeth Cymru mai chwaraeon a gweithgarwch corfforol yw offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi dyhead yn ei llythyr cylch gwaith i Chwaraeon Cymru, sy'n datgan

[88] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 196

bod “cyfle inni fanteisio ar y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd o Covid-19 ac ychwanegu at yr ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd chwaraeon i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.”.

**149.** Fodd bynnag, heb unrhyw gynnydd sylweddol yn y cyllid ôl-bandemig ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol, mae’n rhaid i ni gwestiynu sut caiff uchelgais o’r fath ei gwireddu? Mae’r ffocws newydd hwn ar bwysigrwydd gweithgareddau corfforol yn dilyn Covid-19 yn hynod o bwysig ac yn un rydym yn ei gefnogi. Bu digon o rethreg hefyd ynghylch sicrhau nad yw’r bwlch cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig yn ehangu yn dilyn y pandemig. Credwn na ddylai’r ffocws fod ar hyn - dylai fod ar leihau’r bwlch, a’i grebachu’n gyflym. Byddai hyn yn ei dro yn rhoi mwy o degwch i bobl o ardaloedd difreintiedig sy’n dymuno cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae’r ddau fater hyn gyda’i gilydd, yn ein barn ni, yn haeddu hwb ariannol sylweddol i sicrhau bod gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yn cael ei gwireddu.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu’n sylweddol y cyllid sydd ar gael ar gyfer mynd i’r afael â chyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig.

**150.** Cododd nifer o gyrff llywodraethu bryderon yn ystod ein hymchwiliad ynghylch yr effaith y bydd newidiadau i fodel buddsoddi Chwaraeon Cymru yn ei chael ar eu cyllid grant. Roedd rhai o’r newidiadau mewn cyllid a amlygwyd yn eithaf arwyddocaol. Credwn fod gan y cyrff llywodraethu hyn le i bryderu.

**151.** Er gwaethaf hyn, rydym yn derbyn y ddadl a wnaed gan Chwaraeon Cymru bod angen gwneud rhywbeth i geisio amrywio’r amrediad o chwaraeon sy’n derbyn cyllid. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith i amrywio’r grwpiau sy’n ymwneud â gwahanol chwaraeon. Amlygodd StreetGames, yn enwedig, yr angen i amrywio’r ddarpariaeth chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

**152.** Nid ydym yn diystyru pa mor heriol yw hyn i Chwaraeon Cymru, cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol a darparwyr chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill. Mae’r model buddsoddi newydd yn newid sylweddol o ddulliau cyllido blaenorol. Er mor boenus ag y gall fod i rai o’n cyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol, credwn ei bod yn rhy gynnar i wneud unrhyw farn ar lwyddiant dull newydd Chwaraeon Cymru o fuddsoddi a’r cydraddoldeb y gallai ei ddarparu o ran cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig o’u cymharu â rhannau eraill o Gymru. Gan hynny, rydym yn argymell bod adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal ar ôl tair blynedd i asesu effaith y model buddsoddi newydd ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o effaith y dull buddsoddi newydd ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig ymhen tair blynedd.

**153.** Mae llawer o wahanol ddulliau o gyllido chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y dull a fabwysiadwyd gan Sport New Zealand Ihi Aotearoa gyda'u cynllun peilot "Active Me – Kia Tū". Er bod grant tebyg ar gael yng Nghymru (y Grant Datblygu Disgyblion) nid yw ar gael yn benodol ar gyfer costau sy'n ymwneud â gweithgareddau corfforol. Fe'i targedir yn bennaf i gynorthwyo teuluoedd incwm isel i gael mynediad at offer ac eitemau sydd eu hangen ar gyfer yr ysgol a gweithgareddau addysgol. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer cit chwaraeon, ond fe'i defnyddir hefyd ar gyfer gwisg ysgol, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, deunydd ysgrifennu ac yn y blaen.

**154.** Er ein bod ni'n croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog y gallai'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei ddefnyddio i brynu offer ychwanegol i gymryd rhan mewn chwaraeon ysgol, er enghraifft, credwn fod cyfle i fynd ymhellach. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyllido cynllun peilot dan y teitl Grant Datblygu Gweithgareddau Corfforol, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot Seland Newydd i lywio ei ddyluniad. Byddai cymhwyster ar gyfer y grant hwn yn debyg i un y Grant Datblygu Disgyblion, ond byddai'n cael ei dargedu'n benodol at ddibenion chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Byddai'n galluogi'r rhai o ardaloedd difreintiedig i gael cymorth ychwanegol i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i leoliad yr ysgol, gan gynyddu eu gallu i wneud mwy o weithgarwch corfforol. Dylid defnyddio'r grant hwn mewn ffordd mor hyblyg â phosibl, gan gydnabod y rhwystrau niferus sy'n bodoli o ran cael mynediad at chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Yn ymarferol byddai hyn yn golygu helpu unigolion i gael mynediad at chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ffordd sy'n addas iddynt. Gallai hyn gynnwys caniatáu i'r grant gyllido:

- cymorth ar gyfer cyrchu cyngor proffesiynol ar ddatblygu cynlluniau gweithgareddau corfforol neu ffitrwydd a all weddu i'w hanghenion a/neu eu hamgylchiadau eu hunain;
- ffioedd cit chwaraeon neu danysgrifiadau i gymryd rhan mewn clwb chwaraeon neu weithgareddau;
- mynediad at gyfleuster chwaraeon neu ardal gemau amlddefnydd;
- costau teithio.

**155.** Credwn yn gryf y gallai grant o'r fath fod yr un mor llwyddiannus â'r Grant Datblygu Disgyblion. Byddai hefyd yn rhoi hwb mawr i unigolion mewn ardaloedd difreintiedig i gynyddu

eu gweithgarwch wythnosol ymhell y tu hwnt i'r hyn maent yn ei wneud yn ystod gwersi addysg gorfforol mewn lleoliad addysgol.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynllun peilot ar gyfer Grant Datblygu Gweithgarwch Corfforol, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot "Active Me – Kia Tū" yn Seland Newydd, er mwyn gwella mynediad i'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

# 5. Data

**156.** Mae nifer o ffynonellau data a ddefnyddir i lywio lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Maent yn cynnwys:

- Arolwg Cenedlaethol blynyddol Llywodraeth Cymru o Gymru[89];
- Arolwg Cenedlaethol Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru[90]; a
- dulliau eraill mwy ad hoc o gasglu data (fel yr arolygon a gynhaliwyd yn ystod y pandemig i asesu ei effaith ar gyfranogiad).

## Data ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig


**157.** Mae nifer y teuluoedd yng Nghymru sydd mewn perygl o fod mewn tlodi incwm cymharol wedi bod tua 23-24 y cant ers dros ddegawd a hanner.[91] Yn ogystal, gwyddom hefyd fod gweithgarwch corfforol ymhlith aelwydydd incwm is yn tueddu i fod yn is o gymharu ag aelwydydd incwm uwch.

***Tabl 1 Canran y plant sy'n actif bob dydd yn ôl cyfoeth teuluol***[92]

| Blwyddyn | Cyfoeth isel (%) | Cyfoeth canolig (%) | Cyfoeth uchel (%) |
|---|---|---|---|
| **2013/14** | 15 | 13 | 17 |
| **2017/18** | 15 | 16 | 21 |
| **2019/20** | 13 | 15 | 20 |

[89] https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[90] www.chwaraeon.cymru/ymchwil-a-gwybodaeth/arolwg-chwaraeon-ysgol/
[91] Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl math o deulu, Stats Cymru
[92] Canran y plant sy'n actif bob dydd - Mesurau iechyd a llesiant ar gyfer plant mewn perthynas â'r Dangosyddion Cenedlaethol, Stats Cymru


## Amddifadedd cymharol yng Nghymru 2019[93]




**158.** Fel yr amlinellwyd yn y map uchod, mae dosbarthiad daearyddol yr ardaloedd hynny sydd â mwy o amddifadedd cymharol wedi ei ganoli yn yr hyn y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel "gorllewin Cymru a'r Cymoedd". Fodd bynnag, mae pocedi o ardaloedd difreintiedig ledled y wlad.

[93] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Mae lliwiau tywyllach yn adlewyrchu mwy o amddifadedd cymharol.

## Mynediad at gyfleusterau chwaraeon ar drafnidiaeth gyhoeddus[94]




**159.** Mae'r ail fap yn dangos, ac eithrio ardaloedd o amgylch Caerdydd a'r Cymoedd, bod y rhan fwyaf o Gymru yn wynebu amseroedd teithio hirach wrth geisio cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

**160.** Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn ac yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau.[95] Mae hyn yn cynnwys cwestiynau ar chwaraeon a

[94] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. D.S. Mae lliwiau tywyllach yn cynrychioli amseroedd teithio hirach.
[95] https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru

gweithgarwch corfforol. Mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i "helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw". Mae ganddi hefyd lawer o bartneriaid cyflawni, yn bennaf y cyrff a noddir gan y llywodraeth, gan gynnwys Chwaraeon Cymru.

**161.** Dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym fod y cwestiynau maent yn eu mewnbynnu yn canolbwyntio ar gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon ledled y wlad. Dywedodd fod yr wybodaeth hon o gymorth i gael trosolwg gwybodus o lefel gweithgarwch chwaraeon y boblogaeth sy'n oedolion.[96]

**162.** Y ciplun ystadegol oedd ar gael i ni oedd yr iteriad cyn-bandemig, gan gynnwys data o 2019-20.[97] Amlinellir y data diweddaraf hwn ym mhennod gyntaf yr adroddiad hwn.

## Arolwg Chwaraeon mewn Ysgolion

**163.** Dywed Chwaraeon Cymru mai ei Arolwg Chwaraeon Ysgol yw un o'r arolygon mwyaf o bobl ifanc yn y byd:

> *"The School Sport Survey gives us and the sector a rich insight into participation levels, behaviours and attitudes. It started in 2011 when 110,000 children and young people took part. We have been taking the survey to 1000 schools across Wales on a regular basis ever since."*[98]

**164.** Cynhaliwyd yr Arolwg yn 2011, 2013, 2015 a 2018. Roedd y canfyddiadau diweddaraf yn 2018 yn seiliedig ar ymatebion gan 120,000 o blant ysgol. Yna caiff y data hwn ei bwysoli i geisio ei wneud yn gynrychioliadol o'r boblogaeth.

**165.** Mae'r canlyniadau'n dangos bod y cynnydd mewn cyfranogiad a welwyd rhwng 2011 a 2015 wedi ei gynnal, gyda 48 y cant o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ogystal â gwersi Addysg Gorfforol wedi eu hamserlennu.

**166.** Mae ffigurau 2018[99] yn awgrymu lleihad yn y bwlch cyfranogiad ar gyfer rhai grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

---

[96] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[97] www.chwaraeon.cymru/files/90e5d709a9ebecc572c08a4f90a00fac.pdf
[98] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[99] www.chwaraeon.cymru/cynnwys/arolwg-ar-chwaraeon-ysgol/

- Mae 45 y cant o blant ag anabledd neu nam bellach yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (yn ogystal â gwersi Addysg Gorfforol wedi eu hamserlennu), sy'n gynnydd o'r ganran o 40 y cant yn 2015.

- Mae'r grŵp lleiafrif ethnig sydd â'r cyfranogiad isaf, sef Asiaidd Prydeinig, wedi gweld cynnydd yn y cyfranogwyr rheolaidd o 36 y cant i 40 y cant, gan ddod â nhw'n agosach at y cyfartaledd cenedlaethol.

- Yn y cyfamser mae'n edrych fel bod bwlch mwy ystyfnig rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig. Mae 42 y cant o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion sydd â'r nifer uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymryd rhan deirgwaith neu'n amlach yr wythnos (yn ogystal â gwersi addysg gorfforol wedi eu hamserlennu), i lawr o 43 y cant yn 2015. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 55 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion sydd â'r nifer leiaf o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**167.** Mae lefelau pobl ag anableddau, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl â lefelau is o gyfoeth i gyd fel arfer yn byw mewn ardaloedd lle gwelir mwy na'r arfer o amddifadedd ar y cyfan.

**168.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Chwaraeon Cymru y gall yr Arolwg Ysgolion helpu i nodi amrywiaeth eang o rwystrau sy'n cyfyngu ar gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn chwaraeon. Aethant ymlaen i ddweud mai'r tri ymateb amlycaf yn arolwg 2018 a fyddai'n annog disgyblion i wneud mwy o chwaraeon oedd: 'Pe bai gen i fwy o amser…' 'Pe bai'n haws cyrraedd clybiau…' 'Pe bai'n rhatach…'

**169.** Yn anffodus, nid oedd canlyniadau Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 ar gael i ni gan ei fod yn cael ei gynnal yn ystod ein hymchwiliad.

## Ffynonellau data eraill

**170.** Yn ystod y pandemig, comisiynodd Chwaraeon Cymru Savanta ComRes – sefydliad arolygon – i holi oedolion[100] ynghylch eu cyfranogiad mewn chwaraeon ar lefelau amrywiol o gyfyngiadau. Mae canfyddiadau allweddol o'r arolwg diweddaraf (Awst 2021, y pedwerydd arolwg) yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r lefelau gweithgarwch cyffredinol wedi cynyddu ers mis Mawrth 2021 ac mae mwyafrif yr oedolion bellach yn nodi eu bod yn gwneud mwy o weithgarwch na

[100] www.chwaraeon.cymru/ymchwil-a-gwybodaeth/comres/

chyn y pandemig. Fodd bynnag, mae oedolion hŷn, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai sydd â chyflwr neu salwch hirsefydlog yn parhau'n fwy tebygol o nodi eu bod yn gwneud llai o weithgarwch nag yr oeddent cyn y pandemig.

- Roedd y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ddwywaith yn fwy tebygol na'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch o fod wedi peidio â gwneud unrhyw ymarfer corff yn ystod yr wythnos ddiwethaf (ABC1 – 11% : C2DE – 22%).

- I'r gwrthwyneb, roedd plant o deuluoedd incwm is yn fwy tebygol o wneud y lefel o ymarfer corff a argymhellir ar gyfer plant fesul diwrnod (awr neu fwy) bob diwrnod o'r wythnos (ABC1 – 17% : C2DE – 23%), er bod y gwrthwyneb yn wir ar y penwythnos.

- Ym mhob camp a arolygwyd, bu gostyngiad yng nghyfranogiad rheolaidd y rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol is o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig. Nid yw'r un peth yn wir am y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch, er bod tuedd gyffredinol o hyd o lai o gyfranogiad.

- Roedd y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy hyderus nag oedolion o gefndir economaidd-gymdeithasol is i ddefnyddio pob cyfleuster chwaraeon a arolygwyd.

- Roedd y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o ystyried ei bod yn bwysig ymarfer corff yn rheolaidd (ABC1 – 71% : C2DE – 61%).

- Roedd oedolion o gefndir economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o weld ymarfer corff yn bleserus a'i fod yn rhoi boddhad iddynt (ABC1 – 67% : C2DE – 53%).

## Tystiolaeth a ystyriwyd

**171.** Yn ystod ein hymchwiliad, trafodwyd data sawl gwaith.

### Data arolwg ysgolion

**172.** Wrth sôn am ei Arolwg Chwaraeon Ysgol, dywed Chwaraeon Cymru ei fod yn defnyddio'r arolwg i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am adnoddau buddsoddi yn y dyfodol, a'i fod yn ei alluogi i edrych ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'n defnyddio'r dystiolaeth i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan.

**173.** Nododd nifer o gyrff llywodraethu fod y data y gallant gael mynediad ato yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio a blaenoriaethau o fewn eu campau priodol. Er enghraifft, dywedodd Fergus Feeney, Prif Weithredwr Nofio Cymru, wrthym:

> *"our data and insight tell us that 52 per cent of Welsh schoolchildren will leave key stage 2 without the ability to be able to swim, which is really shocking."*[101]

**174.** Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym bod data'r arolwg ysgolion yn gweithio'n dda ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ond bod meintiau sampl bach ar lefelau lleol, yn enwedig ar gyfer chwaraeon llai, yn dechrau cyfyngu ar ei ddefnyddioldeb. Nodwyd hefyd bod yr 20 prif gorff llywodraethu wedi derbyn adroddiadau dirnadaeth unigol ar gyfer eu chwaraeon. Fodd bynnag, nid oes gan chwaraeon llai, a allai elwa ar wybodaeth o'r fath i'w helpu i dyfu, fynediad at yr wybodaeth hon. Dywedodd Matthew Williams wrthym:

> *"if you start thinking about things like disability sport, where there are relatively few numbers of people in local areas with specific disabilities or doing specific disability sport. You won't pick that up in the way that the school sport survey is conducted."*[102]

**175.** Mewn tystiolaeth lafar, galwodd StreetGames am i ddata fod ar gael mewn ffordd agored fel y gall sefydliadau fel StreetGames ei ddefnyddio o ddifri.[103] Fe wnaeth yr Athro McNarry bwynt tebyg, gan ddweud nad yw'r data presennol mor hawdd ei ddefnyddio ag y mae mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, o bosibl, a bod hynny'n rhywbeth y gallem yn sicr weithio arno.[104]

**176.** Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd am ddata ansoddol.[105] Roedd yn ymddangos bod yr Athro McNarry yn cefnogi'r alwad hon, gan ddweud bod data meintiol:

---

[101] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 162
[102] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 226
[103] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 59
[104] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 228
[105] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig

> *"...allows us to identify where further insight is needed and then I do think we need to go and address that by getting the lived experiences of people, and that's something that is increasingly called for across the area."*[106]

**177.** Er gwaethaf y sylwadau hyn, roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch effaith yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol.

### Safbwyntiau ar ddata cyfranogiad oedolion

**178.** Er bod cyfoeth cymharol o wybodaeth am blant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig, mae'r gwrthwyneb yn wir am ddata ar gyfranogiad oedolion.

**179.** Dywedodd Matthew Williams o Gymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym mai rhywle arall lle mae talp mawr o ddata ar goll yw cyfranogiad oedolion. Ychwanegodd fod y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu mesur bras o gyfranogiad oedolion mewn gweithgareddau corfforol. Mae hyn yn wahanol i Loegr lle maent yn cynnal arolwg bywydau egnïol.[107] Ychwanegodd hefyd, o ystyried maint y sampl, na cheir wybodaeth am chwaraeon penodol mewn ardaloedd penodol o'r data hwnnw.[108]

**180.** Mae cyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon unigol yn casglu eu data eu hunain. Dywedodd Geraint John o Undeb Rygbi Cymru wrthym:

> *"you look at the participation number, the health and well-being there, the deprivation, child poverty. We try and pull all of that together to look at where we need to go in the future."*[109]

**181.** Gofynnom i Lywodraeth Cymru a fyddent yn ystyried dulliau pellach o gasglu data sy'n ymwneud ag oedolion. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Yes, I think that would be something we'd need to discuss further with Sport Wales. Obviously, the new investment model they have, and that's still early days, that's very much about quantitative and quantitative input to support and feed into decision making. So, that's very much a data-driven element.*

[106] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 227
[107] Arolwg 'Active Lives' Sport England
[108] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 227
[109] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 90

> *So, whether there are any gaps or things there that are needed to build on that, we'd absolutely welcome discussion and explore that further."*[110]

## Cydweithio ar ddata

**182.** Dangosodd nifer o randdeiliaid fod amrywiaeth o wahanol ffynonellau data yn bodoli i lywio cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys data sydd ganddynt eu hunain, yn ogystal â chael mynediad at ffynonellau cyhoeddus eraill, fel yr arolwg chwaraeon ysgol neu ddata a gedwir gan lywodraeth genedlaethol a lleol.

**183.** Yn ogystal â'r data a amlinellwyd eisoes yn y bennod hon, mae sefydliadau eraill yn casglu ac yn cadw eu data eu hunain. Er enghraifft, dywedodd ColegauCymru wrthym sut roedd colegau yn dechrau casglu data o amrywiaeth o ffynonellau. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, nodwyd bod sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd corfforol egnïol a llesiant yn helpu i wella canlyniadau addysgol ac yn hyrwyddo cymunedau iachach mewn colegau.[111]

**184.** Dywedodd Leshia Hawkins o Griced Cymru wrthym ei bod o'r farn bod rhywfaint o ddata cyfoethocach y gallem i gyd ddod yn rhai gwell am gydweithio arno.[112] Dywedodd Mark Lawrie o StreetGames wrthym am fanteision dod â gwahanol ffynonellau ynghyd, a'r effaith y gallai ei chael ar ardaloedd difreintiedig:

> *"I'd say is there are so many other data sources about disadvantaged communities, from health, from education, from all of the other areas of Government, and from our point of view, drawing those together, along with local intelligence from local people—because that's another source that we maybe don't tap into as much as we should—you can then put sports data alongside all the other data sets and really find ways to develop the right interventions."*[113]

**185.** Dangoswyd hyn ar lefel ymarferol gan GolegauCymru, a ddywedodd wrthym:

> *"Some data is available but does not provide as much information as it could. For example, the report on sports participation within Welsh Local Authorities*

---

[110] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 23 Mehefin 2022, paragraff 279
[111] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig
[112] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 4 Mai 2022, paragraff 96
[113] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 8 Mehefin 2022 paragraff 60

> *shows the percentage of adults participating in sporting activity –however this data is not broken down in terms of areas of deprivation."*[114]

## Ein barn ni

**186.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ystyriwyd gennym fod y data sydd ar gael ar blant a phobl ifanc yn llawer gwell na'r hyn sydd ar gael ar gyfer oedolion. Mae Arolwg Cenedlaethol hirsefydlog Chwaraeon Cymru o Chwaraeon Ysgol yn amlwg o fudd enfawr i yrru polisi yn y maes hwn. Oni bai am yr arolygon diweddar a gynhaliwyd gan Savanta Comres, ar ran Chwaraeon Cymru, ynghylch cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yn ystod y pandemig, byddai'r bwlch data ar gyfer oedolion yn llawer mwy (cynhaliwyd yr arolwg cenedlaethol diwethaf yn 2019/20).

**187.** O ran y data sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc, rhaid canmol Chwaraeon Cymru am ei lwyddiant yn y maes hwn. Mae cysondeb yr wybodaeth a gesglir ac a ddarperir i bartneriaid allweddol, dros nifer o flynyddoedd, wedi hwyluso dull o lunio polisïau a yrrir gan ddata. Fodd bynnag, credwn y gellid gwella hygyrchedd y data hwn.

**188.** Clywsom dystiolaeth nad yw chwaraeon llai yn cael data o'r arolwg, yn wahanol i'r 20 camp fwyaf. Er y gall fod rheswm da iawn am hyn - er enghraifft, maint y sampl - credwn y dylid rhannu'r data hwn â chyrff eraill.

**189.** Clywsom hefyd y dylid darparu'r data mewn fformat agored fel y gall amrywiaeth o sefydliadau ei ddefnyddio. Rydym yn cytuno â hyn gan ein bod o'r farn po fwyaf o bobl sy'n gallu dadansoddi a dehongli'r data, gorau oll fydd y mewnwelediad fydd ar gael. Gallai hyn yn ei dro arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â rhwystrau unigol a drafodir mewn pennod flaenorol. Gan hynny, rydym yn argymell y dylai Chwaraeon Cymru sicrhau bod y rownd nesaf o ddata a gesglir drwy'r Arolwg Cenedlaethol ar Chwaraeon Ysgol ar gael mewn fformat ffynhonnell agored.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod data'r Arolwg Cenedlaethol ar Chwaraeon Ysgol yn y dyfodol ar gael mewn fformat ffynhonnell agored i ddarparu mwy o fewnwelediad er mwyn sicrhau gwell tegwch o ran mynediad at chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

[114] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig - tystiolaeth ysgrifenedig

**190.** Cawsom dystiolaeth hefyd a oedd yn galw am well argaeledd data ansoddol. Gellid targedu data ansoddol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu unigolion mewn ardaloedd difreintiedig wrth geisio cael mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Am y rheswm hwn, rydym yn argymell y dylid ystyried sut gellir casglu gwybodaeth ansoddol.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn ystyried sut gall gasglu data ansoddol er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu cyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

**191.** Credwn fod lefel y data a gesglir ar gyfer cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru yn wael. Mae'n rhaid i hyn newid.

**192.** Er bod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu data ar oedolion, dywedwyd wrthym mai mesur bras yw hwn. Nid yw'r dadansoddiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan Chwaraeon Cymru[115] o gyfranogiad oedolion yn yr Arolwg Cenedlaethol (2019-20) yn archwilio cysylltiadau rhwng cyfranogiad ac amddifadedd. Heb i Chwaraeon Cymru gomisiynu Savanta ComRes i gynnwys cwestiynau ar hyn yn ystod ei arolygon o'r pandemig, byddai bwlch data yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd.

**193.** Rydym wedi cael gwybod sawl gwaith drwy gydol yr ymchwiliad hwn pa mor bwysig a hanfodol yw data'r arolwg ar chwaraeon ysgol i lywio penderfyniadau polisi. Mae Chwaraeon Cymru, yn gwbl briodol, yn ymfalchïo mewn defnyddio data i lywio ei waith. Credwn mai'r rhan goll o'r jig-so data hwn yw casglu data rheolaidd, cadarn ar gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon. Gallai'r mewnwelediad y gallai data o'r fath ei ddarparu ar lywio penderfyniadau mewn ardaloedd difreintiedig fod yn newid arwyddocaol.

**194.** Rydym o'r farn y byddai casglu data rheolaidd, gyda chwestiynau tebyg yn cael eu gofyn (i ganiatáu olrhain tueddiadau cyfranogiad, er enghraifft), yn darparu cyfoeth o wybodaeth i lywio'r gwaith o lunio polisïau. Byddai hefyd o gymorth mawr i Lywodraeth Cymru osod ei huchelgais a'i thargedau cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig (yn unol â'n hargymhelliad cyntaf). Byddai hefyd yn caniatáu i ni fel seneddwyr ddwyn y llywodraeth i gyfrif ar ei pherfformiad yn y maes hwn.

**195.** Fel y cyfryw, rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn cyllido arolwg llawn a rheolaidd o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru, a Chwaraeon Cymru wedyn yn ei dreialu a'i gyflwyno. Rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn cyllido, a

[115] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20: Chwaraeon a ffyrdd o fyw egnïol

Chwaraeon Cymru wedyn yn treialu ac yn cyflwyno arolwg llawn a rheolaidd o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido arolwg llawn a rheolaidd o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru, a Chwaraeon Cymru wedyn yn ei dreialu a'i gyflwyno.

**196.** Y mater olaf a ystyriwyd gennym mewn perthynas â data oedd yr agwedd gydweithredol arno. Gwyddom fod nifer o wahanol ffynonellau data yn bodoli, ac mae lefel hygyrchedd pob ffynhonnell yn amrywio'n fawr. O ystyried y ffynonellau helaeth sy'n bodoli, credwn fod angen gwaith i ymchwilio i'r ffordd orau o rannu'r data hwn a sicrhau mynediad ato i bawb. Fel y nodwyd gan StreetGames, drwy gasglu'r wybodaeth hon ynghyd, gellir dechrau dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu'r ymyriadau cywir o ddifri.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddod â gwahanol ffynonellau data sy'n ymwneud â chyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig ynghyd, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd mewn un lle.

# Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **16 Mawrth 2022** | **Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro,**<br>Chwaraeon Cymru<br>**Owen Hathway, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus,**<br>Chwaraeon Cymru |
| **4 Mai 2022** | **Noel Mooney, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Cymdeithas Bêl-droed Cymru<br>**Aled Lewis, Pennaeth Datblygu Pêl-droed,**<br>Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru<br>**Leshia Hawkins, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Criced Cymru<br>**Mojeid Ilyas, Swyddog Datblygu Cymunedau Amrywiol,**<br>Criced Cymru<br>**Geraint John, Cyfarwyddwr Cymunedol,**<br>Undeb Rygbi Cymru<br>**Chris Munro, Arweinydd Datblygu Clybiau Cenedlaethol,**<br>Undeb Rygbi Cymru |
| **4 Mai 2022** | **Fergus Feeney, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Nofio Cymru<br>**Hanna Guise, Rheolwr Cenedlaethol Dysgu Nofio,**<br>Nofio Cymru<br>**Phil John, Is-Gadeirydd,**<br>Pêl-fasged Cymru<br>**Azeb Smalley, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant,**<br>Pêl-fasged Cymru |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
| --- | --- |
| **4 Mai 2022** | **Victoria Ward, Prif Weithredwr,**<br>Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br>**Matthew Williams, Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth,**<br>Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| **8 Mehefin 2022** | **Mark Lawrie, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>StreetGames<br>**Claire Lane, Cyfarwyddwr Cymru,**<br>StreetGames<br>**Fiona Reid, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Chwaraeon Anabledd Cymru<br>**Gary Lewis, Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau,**<br>Urdd Gobaith Cymru<br>**Jo Jones, Rheolwr Rhanbarth De Cymru,**<br>Urdd Gobaith Cymru<br>**Emily Reynolds, Cyfarwyddwr Rhaglenni Cenedlaethol,**<br>Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid<br>**Yr Athro Melitta McNarry,**<br>Prifysgol Abertawe |
| **23 Mehefin 2022** | **Dawn Bowden, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a Phrif Chwip**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Twristiaeth a Chwaraeon,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Neil Welch, Pennaeth Chwaraeon,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **SDA 01** | Ymateb gan unigolyn |
| **SDA 02** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **SDA 03** | Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| **SDA 04** | Chwaraeon Cymru |
| **SDA 05** | Criced Cymru |
| **SDA 06** | Sported Foundation |
| **SDA 07** | ColegauCymru |
| **SDA 08** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **SDA 09** | Urdd Gobaith Cymru |
| **SDA 10** | StreetGames |
| **SDA 11** | Nofio Cymru |

## Gwybodaeth ychwanegol

Cyfarfu'r Pwyllgor â'r sefydliadau a ganlyn pan ymwelodd â gogledd Cymru.

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Clwb Pêl-droed Wrecsam | 19 Mai 2022 |
| Dreigiau'r Dyffryn | 19 Mai 2022 |
| Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai | 20 Mai 2022 |